# Y Bont

Clybiau Plant Cymru
KIDS' CLUBS
www.clybiauplantcymru.org

Haf 2021

Rhifyn 78
ISSN 1464-4282



# Hwyl yn yr Haul!

**Yn y rhifyn hwn...**

- **Newyddion Rhanbarthol**
- **Bagiau Cymorth Tesco**
- **Gemau Stryd**

**...a mwy!**

Cwmni cyfyngedig drwy warant 4296436
Elusen Gofrestredig 1093260
Yn gweithio mewn partneriaeth â: Llywodraeth Cymru Welsh Government

Clybiau Plant Cymru KIDS' CLUBS

Rhifyn 78 Haf 2021

## Yn y rhifyn hwn...


Llythyr gan y Prif Swyddog Gweithredol.............2
Arolwg Bodlonrwydd Aelodau..........4&5
Ffocws ar Orllewin Cymru..........6&7
Ffocws ar Ogledd Cymru.......8&9
Ffocws ar Dde Ddwyrain Cymru...10&11
Hyfforddiant..........................12&13
Fforio..............................14&15
Cymraeg.....................................16
Syniadau Codi Arian..................17
Prosiectau...........................18&19
Neges gan Naomi Evans............21
Y Cwricwlwm Gwaith Chwarae...22&23
Risg mewn Chwarae..................24
Chwarae yn yr Awyr Agored...30&31
Cwrdd â'r Tîm.....................32&33
Gemau Stryd...............................34



Ymwadiad:
Gwneir pob ymdrech gan Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs i sicrhau bod cynnwys ein newyddlen yn gywir Dylech nodi nad yw Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs yn cymeradwyo unrhyw un o'r gwasanaethau, clybiau, gweithgareddau nac erthyglau, ac ni fydd yn gyfrifol am unrhyw weithred ar ran unrhyw berson neu grŵp o bobl sy'n darllen y newyddlen. Er gwybodaeth yn unig y dosberthir y newyddlen; heb gyfrifoldeb na rhwymedigaeth gyfreithiol.



Cwmni cyfyngedig drwy warant 4296436
Elusen Gofrestredig 1093260
Swyddfa Gofrestredig:
Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs,
Tŷ'r Bont, Ffordd yr Orsaf, Llanisien,
Caerdydd. CF14 5UW
Ffôn: 029 2074 1000
E-bost: info@clybiauplantcymru.org
Y We: www.clybiauplantcymru.org


Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Annwyl Aelod o Glwb Gofal Plant All-Ysgol...



Croeso i'n rhifyn Haf o'r Bont, yn llawn syniadau am **Haf o Chwarae**; mae'r rhifyn yma'n canolbwyntio ar bwysigrwydd chwarae i blant, adlewyrchiad o'r flwyddyn a aeth heibio a'r cyfleoedd chwarae a gollwyd, a golwg ymlaen at yr hyn y gallwn ei wneud i gefnogi cyfleoedd chwarae yn y misoedd i ddod.

Rydym wedi ysgrifennu at bob Aelod newydd o'r Senedd i sicrhau eu bod yn gwerthfawrogi'r rhan hanfodol y mae'r sector Gofal Plant Allysgol yn ei chwarae yn economi Cymru, a'i rôl yn cefnogi iechyd a llesiant plant. Byddwn yn dal i gynrychioli'r sector yn strategol ac yn gweithio'n agos â'r Senedd yn ei thymor newydd.

Yn y gwanwyn fe wnaethom lansio yn llwyddiannus ein **Gweledigaeth, Cenhadaeth ac Amcanion Strategol newydd** i gefnogi'r Sector Gofal Plant Allysgol i oroesi, adfywio a symud ymlaen i ffynnu dros y 3 blynedd nesaf.

**Ein gweledigaeth** yw Cymru lle mae plant yn chwarae a chymunedau'n ffynnu.

**Ein cenhadaeth** yw bod yn llais Clybiau Gofal Plant Allysgol yng Nghymru, gan gefnogi hawl plant i chwarae a gofal plant o ansawdd sydd yn gynaliadwy, yn fforddiadwy ac yn diwallu anghenion plant, eu teuluoedd a'u cymunedau.

Drwy'r gwerthoedd a'r ymddygiad sy'n dilyn, **awn ati** i eiriol a **mynnwn** ddiogelu'r sector, **cydweithiwn** â phartneriaid a chynnig **addysg** a **newyddion**. Rhoddir ein strategaeth ar waith drwy gofleidio a byw'r gwerthoedd, yr amcanion a'r ffyrdd o weithio o osodir i lawr yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, drwy alluogi'r sector i gyflenwi Cymru sy'n **iachach** ac yn fwy **llewyrchus**, un fwy cyfartal, sydd â **diwylliant bywiog**, sector sy'n cefnogi **cymunedau cydlynol**.

I ddarllen mwy, http://bit.ly/CPCKC-Strategy-2021

**Gobeithio eich bod erbyn hyn wedi manteisio ar y cyfle am Aelodaeth ddi-dâl** ac wedi cofrestru fel aelod o Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs. Roeddem wrth ein boddau yng nghanlyniadau'r arolwg bodlonrwydd eleni, a byddwn yn hynod falch o allu parhau i'ch cefnogi eleni.

Os nad ydych wedi manteisio ar ein haelodaeth DDI-DÂL am 2021-22 (i Glybiau Gofal Plant Allysgol) ewch i'r wefan www.clybiauplantcymru.org/members.asp i ymuno / ailymaelodi!

Gwelwch yr hyn mae Clybiau eraill wedi ei ddweud dros y tudalenau nesaf.

**Ebostiad Wythnosol**
Beth yw'ch barn am ein he-bostiadau wythnosol? Roeddem yn teimlo ein bod yn anfon cymaint o e-byst i'n haelodau gan beri efallai iddynt fethu'r targed, felly rydym wedi gwneud ein gorau glas y chwarter hwn i dorri i lawr ar y nifer a anfonwn.

Yn hytrach, rydym yn anfon e-bost cyfun ar Ddydd Llun, a bydd unrhyw ddiweddariadau ychwanegol yn cael eu hanfon drwy ein tudalen Facebook, www.facebook.com/clybiau, ac ar ein tudalen newyddion ar y wefan, https://www.clybiauplantcymru.org/news.asp

Bydd unrhyw beth pwysig rhwng amserau'r ebostiad yn cael ei anfon fel e-bost ar wahân, ond rydym yn gobeithio bod y ffordd yma'n well i chi! Unrhyw adborth? Ebostiwch info@clybiauplantcymru.org a gwnawn ein gorau glas i ymateb i ofynion ein haelodau!

**Mae arnom angen eich help! Rydym yn awr yn derbyn enwebiadau ar gyfer ein Bwrdd nesaf o Ymddiriedolwyr.**

Dylech dderbyn yn fuan ar e-bost (os nad ydych wedi eisoes) wybodaeth ynghylch ymuno â'n Bwrdd Ymddiriedolwyr.

Ar adeg pan fyddwn yn edrych yn ôl dros y 18 mis diwethaf ac yn cynllunio ar gyfer adfywiad yn y cyfnod sydd i ddod, mae arnom angen tîm o gefnogwyr ymroddedig i helpu i symud y gyfundrefn yn ei blaen, ac i barhau i gefnogi'r sector.

Bydd eich ymrwymiad yn golygu o leiaf 4 cyfarfod y flwyddyn dros 3 blynedd, ac ar wahân i hynny gallwch ymrwymo gymaint ag y dymunwch, ac y gallwch. Ond mae'n bwysig iawn bod gennym gynrychiolaeth o safbwyntiau, dyheadau a phroblemau sy'n wynebu'r sector Allysgol o bob rhan o Gymru er mwyn dal i ymladd eich brwydr chi, fel yr ydym wedi ei wneud dros yr 20 mlynedd diwethaf, ond erioed yn fwy na thros y 12 mis diwethaf.

Os ydych yn barod ac yn gallu bod yn rhan o hyn, byddai'n dda gennym petaech yn cysylltu â ni ar 029 2074 1000 neu membership@clybiauplantcymru.org

**Thema Diwrnod Chwarae 2021** ar Ddydd Mercher, i ddod i wybod mwy am gemau newydd a hen. Gobeithio yr ymunwch â ni ac y byddwch yn darparu gweithgareddau yn eich cymuned chi, yn cefnogi'r cyfle nid yn unig er mwyn y plant, ond fel y gall cymunedau cyfain fynd allan i rannu eu chwarae, a mwynhau'r cyswllt hwnnw sydd wedi bod ar goll dros y 16eg mis diwethaf. Cadwch lygad ar ein he-byst wythnosol a'n cyfryngau cymdeithasol am fwy o wybodaeth.

Mwynhewch yr haf!

Jane O'Toole,
Prif Swyddog Gweithredol

# All about us!

It's been a strange and uncertain time but, together Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs and you, our member clubs, have still managed to have a successful time! Here, and on the next few pages, we share with you some fascinating information and data about what we have achieved together!

## Data Twf

- Twf o 162% yn nifer y Clybiau ers 2001 (589 – 1543)
- Lleihad o 3.38% yn nifer y Clybiau 2020-21 (1597 – 1543)
- 112 Clwb wedi cau (71 lleoliad) 3,048 o leoedd
- 100 Clwb wedi'u colli (72 lleoliad), 3,719 o leoedd

## Iaith

- 73% o'r Clybiau'n Saesneg (2020: 70%)
- 16% o'r Clybiau'n Gymraeg (2020: 16%)
- 11% o'r Clybiau'n Ddwyieithog (2020: 14%)

## Llywodraethiad

- 307 Lleoliad a Reolir yn Wirfoddol (2020: 340) (7% i lawr mewn blwyddyn)
- 90 School Run Settings (2020: 96)
- 421 Lleoliad Preifat (2020: 416)
- 31 Lleoliadau 'Eraill' (2020: 31)

*Da iawn chi am addasu eich cyrsiau hyfforddi a'ch gweminarau drwy fynd ar-lein. Diolch i chi i gyda am eich holl gefnogaeth drwy ebost a chyfarfodydd zoom yn ystod yr argyfwng hwn.*

*- Dysgwr*

*"Athrawon hawdd siarad â nhw, difyr a diddorol. Diolch :)*

*" - Dysgwr*

## Gwerthusiad

- Cynnwys: 4.6/5
- Cyflymser: 4.8/5
- Hyfforddiant: 4.3/5
- Hyfforddwr: 4.6/5
- Bydd 88% yn rhoi ar waith yr hyn y maent wedi ei ddysgu
- Byddai 91% yn argymell ein hyfforddiant

## Ffioedd

- Ffioedd cyfartalog Clwb Brecwast = £4.41 (2019-20: £4.03)
- Ffioedd cyfartalog Clwb Ôl-ysgol = £8.09 (2019-20: £8.02)
- Ffioedd cyfartalog Clwb Gwyliau = £23.23 (2019-20: £23.65)

## Training

- 3,142 yn bresennol mewn sesiynau hyfforddi, mentora, gweithdai (2019-20: 5,295)
- Dros 91,000 yn bresennol mewn 22,300 sesiwn ers 2003

## Cyflawnwyd Eleni

- 1,542 Clwb wedi'u Cefnogi; 849 Lleoliad (2019: 1,597 Clwb, 889 Lleoliad)
- 45,505 Lle Gofal Plant wedi'u Cefnogi (2019: 44,429)
- 31 Clwb wedi Agor; 19 Lleoliad (2019: 34 Clwb, 23 Lleoliad)
- 1,036 Lle Gofal Plant Newydd (2019: 847)
- 9 Ymholiad Newydd; potensial am 158 Lle Gofal Plant (2019: 23 Clwb, 416 Lle)
- 212 [55] Clwb wedi cau/wedi'u colli (144 [39] Lleoliad) 6,767 [1.649] lle
- 17 Clwb yn gweithio tuag at gofrestriad (2019: 23)
- 17 Clwb wedi llwyddo i ennill cofrestriad (2019: 18)
- 6 Clwb wedi ennill Statws SCE
- 49% o Glybiau yn Aelodau (2020: 46%)
- £293,438.14 wedi ei ennill ar gyfer Clybiau

# Arolwg Bodlonrwydd Aelodau 2020-21

**110**
o Leoliadau Aelodau wedi ymateb (82 y llynedd)

cyfradd yr ymateb **26%**

**97%**

Cyrchodd ein gwasanaethau mewn ffordd wahanol eleni, yn cynnwys mewn gweminarau ar-lein, drwy gynnydd yn eu defnydd o gefnogaeth ebost, galwadau fideo gyda'r staff a chynnydd yn y defnydd o'r wefan ac adnoddau.

**69%**
yn aelodau am 5 mlynedd + (72% y llynedd)

**100%**
Yn fodlon ar ein gwasanaeth!
(79% y llynedd)

**98%**
Cafywd fynediad at wybodaeth ac adnoddau perthnasol drwy'r wefan, y newyddlen ac ebost.
(95% y llynedd)

**100%**
Wedi cymryd, neu'n bwriadu cymryd, y cynnig o aelodaeth am ddim ar gyfer 2021-22.

**94%**
Yn dweud bod aelodaeth o Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs yn rhoi gwerth am arian, ac y bydden nhw'n ei argymell i eraill.
(82% y llynedd)

**94%**
Rhoddwyd y cyngor priodol i sefydlu a/neu redeg y busnes gofal plant yn gyfreithiol.
(76% y llynedd)

**99%**
Yn dweud bod staff wedi bod yn foesgar ac yn broffesiynol, ac wedi ymateb i'w ceisiadau mewn modd amserol.
(94% y llynedd)

**97%**
Cafodd eu hanghenion wedi eu bodloni gan Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs yn ystod pandemig Covid-19.

**85%**
Yn dweud bod yr hyfforddiant sydd wedi ei gynnig wedi bod o ansawdd, yn amrywiol ac yn hygyrch.
(76% y llynedd)

## Yn eich geiriau chi...

*"Mae Clybiau bob amser yna ar ein cyfer ac maent yn gefnogol iawn, waeth pa mor fychan yr ymholiad, na pha mor chwerthinllyd y gallai swnio, rydych chi'n rhoi i ni yr hyder a'r sicrwydd sydd eu hangen arnom eu redeg y clwb. "*

*"Rydym wedi cael gwasanaeth rhyfeddol gan Clybiau a byddem yn argymell eich gwasanaethau yn fawr. Yr ychwanegiad a fyddai'n help i ni fyddai ychwanegu Prentisiaeth L2 at eich cyrsiau gan fod canran uchel o'n staff yn ifanc ac mae newid cyflym – 18 mis–3 blynedd – o ran y rhai sy'n aelodau o'n staff. "*

*"Mae eich tîm wedi cadw mewn cysylltiad a gwneud i ni deimlo yn rhan o'r teulu drwy gyfnodau clo. Wedi gwerthfawrogi hyn yn fawr. Diolch. "*

*"Dros y flwyddyn ddwetha mae'r gefnogaeth gan y bobl yma wedi bod yn anhygoel, maen nhw wedi fy ngadw i'n gall ac wedi helpu fy nghlybiau drwy'r amserau mwyaf ofnadwy a phryderus.*

*"Mae'r ffurlfenni, nodiadau o ran arweiniad, y polisïau a'r gweithdrefnau a.y.b. yn Camu Allan wedi parhau i roi set o gyfarwyddyd proffesiynol a dealladwy. Bu'r rhain yn amhrisiadwy dros y blynyddoedd, ac yn arbennig yn awr yn ystod Covid. Thank you/Diolch. "*

*Drwy ebyst, dolenni, gwybodaeth niferus, a hyfforddiant o bell, mae'ch presenoldeb chi wedi bod yn amlwg iawn yn ystod y pandemig."*

*"Roedd y cynnydd yn y galwadau ffôn yn ardderchog, a hefyd y cynnydd yn y wybodaeth i sicrhau bod y lleoliad wedi ei ddiweddaru'n gyson. Roedd cyfathrebu gwych yn dod drwodd pan oedd angen mawr amdano."*

*"Rwyf wedi mwynhau profi gweminarau gan (y Swyddog Hyfforddi) ac mae ei chefnogaeth yn arbennig. Mae ei gwybodaeth o'r sector a'i gallu i'n cefnogi ym mhob sefyllfa newidiol wedi bod yn gwbl anhebgor. Diolch Clybiau. "*

*"Rydym ni'n glwb newydd – fe wnaethom gynnal ein peilot cyntaf yn Hydref 2020. Mae (y Swyddog Datblygu Busnesau Gofal Plant) wedi bod yn gefn aruthrol i'r clwb. Mae wedi rhoi cyngor ardderchog, wedi ein helpu gyda llawer o'r pethau yr oedd angen i ni eu gwneud, ac mae wedi bod yn bresennol yn ein holl gyfarfodydd clwb ar-lein y tu allan i oriau gwaith. Rydym nawr wedi cofrestru ag AGC a byddwn yn rhedeg yn ystod haneri-tymor y Pasg. "*



# Gorllewin Cymru

## Childsplay yn llwyddo i Gofrestru

Hoffai Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs longyfarch yr amlddarparwr yn Abertawe, Childsplay, ar ddod yn gofrestredig gydag AGC yn ôl ym mis Mawrth, gyda'u darpariaeth newydd, Childsplay St David's. Gweithiodd perchennog y busnes, Sam, a'i thîm, yn ddiflino drwy gydol y cyfnod clo i baratoi'r lleoliad ar gyfer ei gofrestru er mwyn agor a chynnig darpariaeth ofal diwrnod llawn i'r plant a'r teuluoedd yn yr ardal. Drwy gymorth ariannu gan Gyngor Abertawe roedd modd i'r lleoliad ddal i weithio tuag at gofrestru ag AGC tra'r oeddent ar gau dros dro oherwydd Covid-19, a pharatoi'r ystafell yn barod i'r plant ei mynychu. Nid yn ddi-rwystr yr aed ati i ddatblygu darpariaeth newydd yng nghanol pandemig, ond gyda dyfalbarhad a phenderfyniad i gefnogi teuluoedd a phlant mae Sam a'i thîm wedi gallu agor y ddarpariaeth a fydd, yn ddi-os, yn mynd o nerth i nerth yn y misoedd i ddod. Pob lwc i Dîm Childsplay wrth baratoi ar gyfer amserau cyffrous i ddod!

## Grantiau ac ariannu

Ar draws Gorllewin Cymru buom yn llwyddiannus yn ein cefnogaeth o sawl clwb i gael cefnogaeth werthfawr eu Hawdurdodau Lleol ar ffurf ariannu yr oedd ei fawr angen yn ystod rhan gyntaf y flwyddyn.

Nid grantiau cynaliadwyedd yr Awdurdod Lleol yn unig a gafodd clybiau i'w cefnogi; gwnaeth nifer ohonynt hefyd elwa ar grantiau cyfalaf er mwyn gwella eu cyfleusterau awyr-agored ar gyfer gweithgareddau'r haf hwn. Defnyddiodd clybiau yr ariannu hwn er mwyn datblygu ymhellach fannau gwyrdd, ychwanegu parasolau am gysgod a darparu seddi a mannau digonol i blant.


**Angen cysylltu â ni?**

Cewch gysylltu â Thîm Gorllewin Cymru
drwy ffonio: 01269 831010,
drwy ebost: info-ww@clybiauplantcymru.org
trwy'r post: Uned 2, Clos Gelliwerdd, Parc Busnes Cross Hands, Cross Hands, Sir Gaerfyrddin. SA14 6RX


## Llongyfarchiadau i leoliadau yn Sir Gaerfyrddin

Llongyfarchiadau i'r holl glybiau yng Ngorllewin Cymru sydd wedi llwyddo i ddod yn Sefydliadau Corfforedig Elusennol (SCE) ac yn rhai sydd wedi cofrestredig gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) eleni. Mae clybiau wedi bod yn adrodd ar ymgysylltu cadarnhaol ag AGC ar-lein a'r broses gofrestru, ac rydym mor falch, ein bod, gyda graddau amrywiol o gefnogaeth, wedi gallu cefnogi cymaint i ddod yn gofrestredig.

Cofiwch os gwelwch yn dda, unwaith y bydd eich cofrestriad gydag AGC wedi ei gadarnhau, nad yw hyn ddim ond yn arddangos ansawdd i rieni ac arianwyr; y mae hefyd yn eich galluogi i gofrestru ar gyfer mentrau sy'n gwella fforddiadwyedd i rieni, megis Y Cynnig Gofal Plant a Gofal Plant Di-dreth, gan wella cynaliadwyedd eich lleoliad. Gall hefyd roi'r cyfle i chi am fwy o ariannu. Am fwy o wybodaeth ar y ffrydiau ariannu yn eich ardal chi, peidiwch â phetruso rhag cysylltu â ni.

Mae'r holl leoliadau yr ydym wedi eu cefnogi eleni wedi elwa yn ogystal o aelodaeth ddi-dâl o Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs, ac rydym yn hynod o falch fod hyn wedi ein galluogi i rannu ymysg ein lleoliadau hyd yn oed mwy o'n polisïau, gweithdrefnau a ffurflenni dwyieithog ynghyd ag amrywiaeth fawr o adnoddau eraill. Ymhlith y gefnogaeth y bu modd i ni ei chynnig i'n Lleoliadau sydd newydd gofrestru/wedi cofrestru y mae -

Tiwtorialau rhagweld llif arian
Disgrifiadau swyddi staff i Weithwyr Chwarae/Arweinwyr Chwarae a Hebryngwyr
Polisïau Covid
Casgliadau / polisïau gollwng
A llawer mwy!!

Os oes angen unrhyw rai o'r fersiynau diweddaraf o'n polisïau dwyieithog arnoch, dyma'r amser i gysylltu. Mae'n debygol y bydd gennym eisoes bolisi cwbl ddwyieithog, y gellir ei olygu, i chi ei lawrlwytho yn syth, ac mae hyn AM DDIM. Os na fydd un ar gael, bydd y tîm yn barod iawn i ddatblygu un gyda chi, felly cofiwch gysylltu â'ch Swyddogion Datblygu Busnesau Gofal Plant yng Ngorllewin Cymru am gymorth pellach ar info-ww@clybiauplant-cymru.org

## Tyfu'ch Gwledd eich Hun Gorllewin Cymru

Clwb Amlapiol Hendrefoilan Wraparound, yn Ysgol Gynradd Hendrefoilan yn Abertawe oedd y cyntaf o'r 3 chynllun peilot dderbyn eu gweithdai Tyfu'ch Gwledd eich Hun.

"Yn Hendrefoilan Wraparound mae'r holl blant yn mwynhau bod y tu allan, felly byddai bod â man i blannu eu hadau yn wych. Bydden nhw'n mwynhau dyfrio a gwylio eu gardd yn tyfu; hefyd fe fydden nhw'n dysgu sut i ofalu am ein planhigion, ac yn orau oll, byddwn ni i gyd yn cael bwyta'r pethau ry'n ni'n eu tyfu fel snacs. Mae'r mwyafrif o'n plant yn hoff o fod mewn mwd, a hefyd, pe bydden ni â gardd, byddai hyn yn annog bywyd gwyllt yn ein hardal ni, a byddai'r plant wrth eu bodd yn ei wylio."

Ein dau glwb peilot arall yn y prosiect yw clwb Mayals Wraparound and After School Club a chlwb Sunbeams After School Club. Derbyniodd pob un o'r clybiau y llyfr, 'Foraging with Kids' ac adnoddau i helpu eu gardd i dyfu. Dilynwch ni ar facebook a twitter, ac ewch i'n gwefan i gael toreth o syniadau ar dyfu, a choginio yn yr awyr agored, yn cynnwys syniadau ar ddathlu tyfu, ac ar ddathlu'r haf a natur gyda'r plant.

## Ariannu i Glybiau yn Abertawe

Mae Lleoliadau Allysgol yn Abertawe wedi bod yn elwa o gefnogaeth drwy ariannu dros yr ychydig fisoedd diwethaf er mwyn goresgyn heriau Pandemig Covid-19, drwy ariannu 'Cwtsh' Cyngor Abertawe. Wedi ei anelu at leoliadau sydd wedi cofrestru gydag AGC, mae'r grantiau y gwnaed cais amdanynt wedi galluogi nifer fawr o leoliadau i gael mynediad at gefnogaeth ariannol o ran cynaliadwyedd, cyfarpar awyr-agored, siediau a mannau storio, prosiectau llesiant megis yoga, prosiectau amrywedd diwylliannol, gwelliannau i adeiladau megis gwresogyddion newydd a bocsys plannu i erddi. Dyfarnwyd dros £96,000 i'r Sector Gofal Plant Allysgol yn Abertawe y llynedd, ac mae ariannu pellach ar gael i leoliadau sydd wedi cofrestru gydag AGC yn 2021-2022 trwy Gronfa Plant a Phobl Ifanc Cyngor Abertawe. Gofynnir i unrhyw Leoliadau sydd wedi Cofrestru gydag AGC, ac sydd â diddordeb mewn gwneud cais, i gysylltu â'ch Swyddog Datblygu Busnesau Gofal Plant ar 07966 792416.



# Cwrdd â'r Clwb!

## Clwb Sketty Kids Club - Abertawe

**Pa wasanaethau Gofal Plant ydych chi'n eu cynnig?** Mae clwb plant Sketty Kids Club yn darparu clwb diogel, cyfeillgar a hwyliog i blant. Mae gwahanol weithgareddau, megis celf a chrefft, gemau, gemau awyr-agored a gemau grŵp ar gael. Fe wnaethom ddal i gynnig ein Clwb Ôl-ysgol yn ystod y cyfnod clo, gan ddarparu gofal i blant gweithwyr allweddol.

**Pryd wnaethoch chi agor?** Agorom yn 1997.

**Beth yw/oedd yr her fwyaf hyd yma, a sut wnaethoch ei goresgyn?** Y flwyddyn ddiwethaf oedd yr her fwyaf hyd yma, yn arbennig o ran y plant hŷn sydd, ar adegau, wedi teimlo wedi'u cyfyngu, ac yn ynysig, trwy fethu â gallu cymysgu gyda ffrindiau o wahanol grwpiau cyson yn ein gofal. I oresgyn hyn, fe wnaethom dreulio llawer o amser y tu allan, a rhoi i'r plant hŷn y cyfrifoldeb o gefnogi'r plant iau â thasgau megis golchi'u dwylo a defnyddio glaniedydd, ac arwain gemau grŵp. Rhoddodd hyn hyder iddyn nhw a'u gwneud i deimlo'n rhan o'r clwb.

Roedd gan y staff y wybodaeth a'r arweiniad ar sut orau i gefnogi'r plant yn ystod y pandemig, a oedd yn adeg ryfedd ac anodd ei rhagweld wrth weithio drwyddi.

**Beth yw'r peth gorau am weithio mewn Clwb Gofal Plant Allysgol?** Mae gweithio gyda phlant mewn lleoliad gofal plant yn waith sy'n rhoi llawer o foddhad, yn enwedig dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'n gwneud i chi deimlo eich bod yn cefnogi'r gymuned, yn helpu pobl gyda'u hiechyd meddyliol a gwneud yn siŵr eu bod yn cael hwyl wrth fod mewn amgylchedd diogel. Mae diogelwch ein holl blant a'n staff yn hollbwysig. Er mwyn i'n clwb redeg yn esmwyth y mae'n gwbl angenrheidiol i ni weithio fel tîm, yn enwedig drwy adegau anodd. Ni allwn fod wedi gwneud hyn heb y staff, ac rwy'n ddiolchgar y tu hwnt am eu holl waith caled.

**Beth sydd orau gan y plant i'w wneud pan fyddant yn y clwb?** Mae'r plant yn hoff o'r gelf a chrefft sydd ar gael, a chwarae gyda ffrindiau a brodyr a chwiorydd.

Heb y gefnogaeth ar ariannu a gawsom, ni fyddem wedi bod â'r modd i barhau i ddarparu'r gofal plant hanfodol hwn. Hoffwn ddweud ar ran y clwb, DIOLCH!

# Hendrefoilan Wraparound yn Dathlu eu Caban Newydd

Mae'r Plant a'r Gweithwyr Chwarae yng Nghlwb amlapiol a gwyliau Hendrefoilan yn Abertawe wedi bod yn dathlu wedi i'w caban newydd gyrraedd! Ar ôl derbyn ariannu gan Gyngor Abertawe yn gynharach eleni, aeth y clwb ati i brynu'r caban mwyaf y gallent ei gael er mwyn creu man arbennig iawn i'r plant ar dir eu Lleoliad. Wedi ei amgylchynu gan goed a natur, mae'r caban yn rhoi i'r plant y cyfle i symud yn rhydd rhwng y tu mewn a'r tu allan, gan wneud y gorau o'u cariad at arddio a bod yn yr awyr agored, gyda rhywfaint o gysgod rhag y tywydd Cymreig! Gweithiodd Bev Burgess, perchennog y busnes ar y Lleoliad, yn ddiflino i gael y man ychwanegol hwn i'r plant ac fe'i galluogwyd i wireddu ei nod yn y diwedd drwy gymorth ariannol Cyngor Abertawe. Mae gan Bev a'r plant gynlluniau mawr i amgylchynu'r caban â blodau a llysiau, a byddant yn cydweithio â Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs fel enillwyr ein cystadleuaeth Canmlwyddiant Tesco, 'Tyfu'ch Gwledd eich Hun'.





# Gogledd Cymru

## Hyfforddiant Diogelu Conwy

### Clybiau Gofal Plant Allsygol yng Nghonwy – mae gwahoddiad i chi!

Ym mis Hydref a mis Tachwedd 2021 byddwn yn cynnal dau gwrs Ddiogelu Sylfaenol Cymru Gyfan ar draws 3 noswaith.

Mae'r cwrs yma wedi ei ddylunio i gyfleu gwerthoedd ac egwyddorion allweddol ynghylch diogelu unigolion, a rhoi i'r rhai sy'n gofalu neu'n cefnogi'r wybodaeth sylfaenol, waelodol.

Os hoffech fod yn sicr o'ch lle, ewch i adran hyfforddi ein gwefan, https://www.clybiauplantcymru.org, neu cysylltwch â'ch Swyddog Datblygu Busnesau Gofal Plant yn y swyddfa ar 01492 536318 neu info-nw@clybiauplantcymru.org

Clybiau Plant Cymru

KIDS' CLUBS

**Angen cysylltu â ni?**

Cewch gysylltu â Thîm Gogledd Cymru drwy ffonio: 01492 536318,
drwy ebost: info-nw@clybiauplantcymru.org
trwy'r post: 19, Princes Drive,
Bae Colwyn. LL29 8HT

## Llongyfarchiadau i'r Rhieni-cu balch!



Llongyfarchiadau lu i'r Neiniau a'r Teidiaid balch yn Nghlwb Antur Big Ben ym Meithrinfa Tiny Tots, ar eni moch cwta bach, am sioc ardderchog! Cymerwyd Speedy, un o'r moch cwta yng Nghlwb Antur Big Ben at y milfeddyg am ei 'fod o'n teimlo'n anhwylus â gormod o wynt yn eu stumog', ond dyna syndod pan ddatgelwyd fod Speedy mewn gwirionedd yn fenywaidd, ac yn disgwyl moch cwta bach. Gwelir Speedy, y fam hyfryd, yma yn y llun gyda'i rhai bach.

## Gardd Clwb Allysgol Deganwy



Mae Clwb Allysgol Deganwy, Conwy, wedi bod yn brysur yn datblygu eu hardal allanol. Rhoddwyd arwyneb newydd ar yr ardal allanol i'r cefn o'u hadeilad y llynedd; defnyddiwyd Tomwellt Rwber gan ei fod wedi dechrau dod yn beryglus o ran baglu o ganlyniad i draul.

Ar ochr yr adeilad roedd ardal eang â ffens rhyngddi a'r plant a glaswellt i fyny at eich gwegil. Mae Janet Smith (Rheolwr y Clwb), Nicky Roberts (Ysgrifennydd y Clwb) ac ychydig o wirfoddolwyr wedi gweithio'n galed ochr yn ochr â Blooming Marvellous i ddylunio'r ardal newydd, a phyllau tywod wedi'u tirlunio, gwelyau codi yn cynnwys blodau, cornel stori a gardd synhwyraidd.

Defnyddiodd y clwb yr ardal i ddatblygu'r ddau fan chwarae i'r plant, gan blannu perlysiau a blodau persawrus i apelio at synhwyrau'r plant, drych ar y wal, hopscotch lliwgar ar y llawr, caws llyffaint, clychau gwynt a hyd yn oed polyn totem, ynghyd â gwahanol drychfilod, a'r cyfan wedi ategu at yr ardal ac wedi annog y plant i gymryd eu llyfrau darllen allan i'r ardd i fwynhau'r ardal dawel. Mae'r defnydd o liw yn yr ardd yn effeithiol iawn ac yn bywiogi'r holl le.

Mae'r plant wedi bod yn brysur yn paentio tai adar a thylwyth teg, sydd wedi eu harddangos o'u hen wellingtons i'w defnyddio fel planwyr.

Mae ardal yr ardd wedi bod yn boblogaidd iawn gyda'r plant ers i'r clwb ailagor wedi pandemig Covid-19, gan eu bod wedi treulio'r rhan fwyaf o'u hamser y tu allan. Mae'r clwb yn codi arian ar hyn o bryd ac yn chwilio am ffrydiau ariannu i'w cefnogi i brynu mwy o deganau awyr-agored megis beics a chyfarpar i gyda'r plant yn brysur yn y misoedd cynhesach i ddod.



## Clwb Allysgol Summerhouse, Y Rhyl



Mae Clwb Allysgol Summerhouse yn Y Rhyl, Sir Ddinbych, wedi ei gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru ar gyfer 34 o blant. Maen nhw newydd gael ardal allanol newydd â chyfarpar ardderchog. Mae'r plant yn mwynhau eu hunain yn fawr iawn, yn dysgu ac yn chwarae.

Mae gardd y Summerhouse bob tro'n gymaint o hwyl, ac mae yno ddigonedd o gyfleoedd i ategu at ddysg a datblygiad y plant, a digonedd o gyfleoedd am weithgareddau hwyliog.
Mae'r plant wedi gwir fwynhau sut i gysylltu'r siapiau, rhai wedi gweithio ar eu pennau eu hunain ac eraill mewn grŵp i weithio allan sut y gallent gysylltu a datrys y broblem.

Mae'r lluniau'n dangos y plant yn cael amser da iawn yn adeiladu â briciau, lle gallan nhw ddysgu am siapiau, gwneuthuriad, uchder a balans. Maen nhw hefyd yn mwynhau gweithgareddau corfforol â chylchynnau a chwarae yn y gegin fwd. Mae'n rhyfeddol gweld y plant yn mwynhau eu hunain, yn cysylltu siapiau a hyd yn oed yn eu gwisgo!

Diolch, Glwb Allysgol Summerhouse am rannu profiadau'r plant gyda ni.

Os hoffech i'ch clwb i fod yn ein cylchgrawn, y Bont, yna cysylltwch â'ch Swyddog Datblygu Busnesau Gofal Plant.



## Tendr Buddugol

Llongyfarchiadau mawr i Feithrinfa Ffalabalam ym Mangor, Gwynedd ar ennill y tendr i ddarparu gofal dydd llawn yn Ysgol y Garnedd. Bydd Clwb Ffrindiau Ffalabalam yn cynnig Clwb Brecwast, Cylch Meithrin, Gofal Amlapiol, Gofal Ôl-ysgol a Darpariaeth Wyliau yn y caban a adeiladwyd i'r diben ar safle'r ysgol. Mae'r caban wedi ei ariannu gan Gynllun Cronfa Gyfalaf Fawr Gwynedd. Mae'r Clwb yn y broses o gael ei gofrestru ac yn bwriadu bod ar agor erbyn gwyliau'r haf.

Da iawn, bawb a fu ynglŷn â hyn a phob lwc yn y dyfodol.

ffalabalam



# De Ddwyrain Cymru

## Llwyddiant Grant Cwtch

Ym mis Ionawr darparodd Llywodraeth Cymru arian i Awdurdodau Lleol i gefnogi cynaliadwyedd y Sector Gofal Plant a oedd wedi ei effeithio gan Bandemig Covid-19. Yn Ne Ddwyrain Cymru gweithiodd Swyddogion Datblygu Busnesau Gofal Plant yn uniongyrchol gydag 18 o Leoliadau, a chynnig cyngor i lawer mwy. O'r 18 Lleoliad hynny mae cyfanswm o tua £125,000 wedi ei ddyfarnu! Mae hyn yn newyddion mor wych, ac wrth weithio gyda'r sector yn ystod y pandemig rydym wedi gweld pa mor anodd y mae wedi bod, a rhai ar fin cau. Mae'r grantiau yma wedi bod yn achubiaeth i'r mwyafrif, a byddant yn gymorth mawr i'w galluogi i oroesi a ffynnu.

Mae Clybiau Plant Cymru Kids' Club wedi cynnig gweminarau sy'n cynnig arweiniad ar systemau ariannu a cheisiadau arm ariannu. Gobeithiwn fod hyn wedi bod o ddefnydd i'r Lleoliadau hynny a'i mynychodd. Os hoffech gefnogaeth gyda cheisiadau am ariannu a'r systemau ariannol y mae angen eu dangos wrth wneud cais am grantiau, cysylltwch â'ch Swyddog Datblygu Busnesau Gofal Plant Rhanbarthol.

## Haf o Hwyl ym Mro Morgannwg

Mae Tîm Chwarae Bro Morgannwg yn cynllunio haf o hwyl i'r plant yn y sir i'w digolledu am y flwyddyn o chwarae na chawsant. Bydd digwyddiadau ar hyd a lled y sir, ac mae'r tîm yn anelu at orffen yr haf drwy gynnal Gŵyl Blant lle, yn ôl y si, gall coblynnod Santa hefyd fod â'u stondin. Cynllunnir cynnal digwyddiadau fel hyn ar hyd a lled Cymru, felly cadwch lygad ar eich hybiau lleol am newyddion o unrhyw gynlluniau ar gyfer Haf o Hwyl yn eich ardal chi, a'r posibilrwydd i Glybiau gynnwys mynd i ddigwyddiadau/gweithgareddau mewn Clybiau Gwyliau os oes rhywbeth yn digwydd yn eich ardal chi. Gwnewch yn siŵr eich bod hefyd yn hysbysebu'r cyfleoedd chwarae sydd ar gael yn eich Clybiau dros yr haf!

### Angen cysylltu â ni?

Cewch gysylltu â Thîm De Ddwyrain Cymru drwy ffonio: 029 2074 1000, drwy ebost: info@clybiauplantcymru.org trwy'r post: Tŷ'r Bont, Ffordd yr Orsaf, Llanisien, Caerdydd. CF14 5UW

## Dathliadau'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd yn Zoopers





"Croeso i Flwyddyn yr Ychen! 'Kung Hei Fat Choi' a 'Sun Leen Fai Lok' (Cantoneg). Defnyddir y ddau ymadrodd yma gan bobl i gyfarch ei gilydd dros gyfnod y flwyddyn newydd. Mae'n golygu lwc dda i chi a blwyddyn newydd dda.

Eleni fe syrthiodd ar Ddydd Gwener, Chwefror 12fed 2021. Y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd neu Ŵyl y Gwanwyn yw'r digwyddiad mwyaf ysblennydd yng nghalendr y Tsieineaid, ac mae'n para am 15 niwrnod. Mae'n cynnwys bendithion traddodiadol, aduniadau teuluoedd, llewod yn dawnsio a thân gwyllt.

"Yng Nghlwb Brecwast ac Ôl-ysgol Zoopers fe wnaethom ddathlu Blwydd Newydd y Tsieineaid gyda'r plant, fe gawsant nwdls (symbol o fywyd hir) a chracers corgimwch (sydd gwneud yr un sŵn â chwerthin a hapusrwydd). Daeth Gweithiwr Chwarae â chopsticks i mewn i ddangos sut y maen nhw'n cael eu defnyddio. Aeth y plant ati'n frwdfrydig i gymryd yr her a llond gwlad o sbri yn ceisio bwyta'r nwdls â nhw. Hefyd fe ddaeth â llyfr i mewn yn sôn am ddeuddeg anifail y Sidydd Tsieineaidd a helpu'r plant i weld pa anifail o'r sidydd oedd yn cyfateb â'u geni nhw. Ar ddiwedd y sesiwn fe wnaeth y rheolwr, Viv, rannu ymhlith y plant 'Lai See' (pacedi lwcus) yn cynnwys siocled, arian a neges gadarnhaol yn dymuno pob lwc iddyn nhw yn y flwyddyn i ddod.
Gweithiwr Chwarae, Zoopers

## Hynt Oak Hill ASD Casnewydd ers Pasg 2021

Os ydych wedi bod yn dilyn taith Darpariaeth Chwarae i rai ag Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth, sef Oak Hill ASD, byddwch yn cofio ein bod wedi'ch diweddaru yn ein rhifyn blaenorol o'r Bont, yn dilyn ein Peilot hanner Tymor ym mis Hydref. Mae'r Clwb wedi bod drwy amser anhygoel yn ystod y pandemig byd-eang, ac yn dilyn llwyddiant y peilot, mae'n bleser gan y pwyllgor, oherwydd gwaith caled y tîm gofal plant, i'ch hysbysu bod y Clwb yn awr wedi dod yn Ddarpariaeth Gofal Plant Gofrestredig gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), ac wedi rhedeg y ddarpariaeth gofrestredig yn llwyddiannus yn ystod rhan o Wyliau Pasg yr ysgol.

Gan fod y Sefydliad Cofrestredig Elusennol yn cefnogi'r ddarpariaeth fel pwyllgor a reolir yn wirfoddol, a chyda'r goblygiadau cost yn uwch nag mewn unrhyw Ddarpariaeth Wyliau arall, maent yn dal gyda'r gwaith caled ac wedi llwyddo yn eu cais i gronfa Arian i Bawb y Lotri Genedlaethol. Bydd hyn yn gymorth i'r ddarpariaeth roi cefnogaeth un-i-un ar gyfer pob plentyn/person ifanc yn ystod hanner tymor mis Mai, ac maent yn gweithio tuag at dderbyn ariannu Plant mewn Angen ar hyn o bryd i gefnogi cyflenwi'r ddarpariaeth yn ystod 4 wythnos o Wyliau'r Haf.

Mae'r Pwyllgor yn gweithio tuag at strategaeth godi arian i gynllunio cynaliadwyedd y ddarpariaeth. Bydd hyn yn sicrhau nad yw'r gost ychwanegol sy'n deillio o gymarebau staff-plant uwch nac adnoddau arbenigol yn effeithio ar ffioedd gofal plant y rhieni. Nod y ddarpariaeth yw sicrhau bod rhieni'n gallu cyrchu gofal plant fforddiadwy i'w plentyn/person ifanc. Os, am unrhyw reswm, yr
hoffech chi neu'ch sefydliad hefyd gyfrannu at yr achos teilwng hwn, a pharhad y ddarpariaeth o ofal o ansawdd, peidiwch â phetruso rhag cysylltu â'n tîm drwy e-bost.

Byddwn yn parhau i'ch diweddaru gyda'u hynt; os hoffech gefnogi'r Clwb yma fel aelod o'r tîm cefnogi neu aelod o'r pwyllgor gwirfoddol, yna peidiwch â phetruso rhag cysylltu drwy e-bost oakhillasdchildcare@gmail.com



# Tyfu'ch Gwledd eich Hun



Mae'n bleser mawr gan Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs i fod wedi derbyn dyfarniad Grantiau Canmlwyddiant Tesco yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru, a De-ddwyrain Cymru i gyflenwi menter 'Tyfu'ch Gwledd eich Hun' i Glybiau Gofal Plant Allysgol. Nod y prosiect yw rholi i blant hwyl, syniadau rhyngweithiol, adnoddau a gweithdai fel y gallant fynd allan i'r awyr agored i dyfu, cynaeafu a choginio eu gwledd eu hunain a gwneud dewisiadau iach eu hunain ynghylch bwyd. Gofynnwyd i leoliadau yng Nghanolbarth, Gorllewin a De-ddwyrain Cymru i fod yn rh ân o gystadleuaeth i fod yn un o'n Lleoliadau peilot, ac yna byddent yn derbyn tri gweithdy gan un o'n Swyddogion Hyfforddi rhagorol, a fyddai'n eu helpu i "Dyfu eu Gwledd eu Hunain" ac yn benllanw i hyn, gynnal parti gan weini'r bwydydd a dyfwyd ganddynt yn rhan o'r prosiect. Byddai'r enillwyr hefyd yn cael copi o lyfr Adele Nozedar ar fforio am ddim.

Cyflwynodd y Lleoliadau ddarn byr yn dweud pam yr oeddent am fod yn rhan o'r prosiect, a dewiswyd yr enillwyr. Yn Ne Ddwyrain Cymru yr enillwyr oedd:

Zoopers, Casnewydd
Puddleducks, Blaenau Gwent
Clwb Allysgol Corneli Sgêr, Pen-y-bont ar Ogwr
Y Bont, Pen-y-bont ar Ogwr
Little Keypers, Caerdydd
Clwb Allysgol Archway Court, Casnewydd

Mae'r gwaith wedi dechrau ar ddarparu'r gweithdai dechreuol ac adlewyrchu ar fannau tyfu. Mae Zoopers yng Nghasnewydd wedi cael eu gweithdy cyntaf, ac wedi rhoi adborth cadarnhaol iawn:

'Fe wnaeth y Perchennog a'r Gweithiwr Chwarae fwynhau'r gweithdy gyda Craig yn fawr iawn, ac yn teimlo y gallai fod wedi para'n hirach gymaint yr o'n nhw'n ei fwynhau. Roedd y wybodaeth yn ddefnyddiol iawn i'w defnyddio gyda'r plant, ac maen nhw'n edrych ymlaen yn fawr at ei roi ar waith. Y camau nesai i'r Clwb fydd gweld ynglŷn â chynwysyddion cost-isel a defnyddio'r hyn sydd gennym eisoes yn y Lleoliad. Mae rhai syniadau wedi codi o'r gweithdy a bydd y Clwb yn hongian tipyn o gynwysyddion o'r ffens sydd eisoes yn ei le; bydd hyn yn rhoi mwy o le i dyfu gwahanol fathau o blanhigion yn y Clwb. Gan fod llwydrew'n dal o gwmpas dros nos mae'r Clwb yn aros yn eiddgar iddo fynd yn llwyr er mwyn cael dechrau ar eu darn tyfu, ac mae angen caniatâd gan yr eglwys berthnasol i gyrchu rhan o'r ardd.

Siaradodd y Perchennog a'r Gweithiwr Chwarae i rai o'r plant, ac mae hwythau'n edrych ymlaen at fod yn rhan o'r prosiect ac yn edrych ymlaen at weithio y tu allan gyda'r Gweithwyr Chwarae. Mae'r Clwb a'r staff yn paratoi i blannu mefus, tomatos, moron a.y.b. ond yn aros am nosau di-lwydrew. Mae pawb wedi'u cyffroi wrth edrych ymlaen at fwyta'r hyn y byddant wedi'i dyfu.'

TESCO Bags of Help

## Hefyd mae Archway Court wedi bod yn datblygu eu mannau allanol!



'Rydym wedi cael y gweithdy o help mawr gan nad ydym yn brofiadol iawn o ran ein gerddi. Mae wedi rhoi i ni rywfaint o wybodaeth er mwyn gallu cefnogi'r plant wrth i ni blannu. Mae tîm Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs yno hefyd os ydym angen unrhyw help neu ofyn unrhyw gwestiynau. Mae'r pant wedi mwynhau dechrau'r prosiect, gan gael yr ardal y n barod i ni ddechrau plannu. Maen nhw wedi gallu cynnig eu syniadau eu hunain o ran ym mhle y dylem blannu pethau a pha fathau y dylem eu plannu. Maen nhw bob un wedi cymryd rôl yn gofalu am y planhigion, ac yn cymryd eu tro i wneud yn siŵr eu bod yn iawn, ac i weld a oes angen dŵr arnyn nhw. Rydym yn gwylio am dyfiant, a, mae'r plant ar bigau'r drain am weld rhywbeth yn ymddangos drwy'r pridd. Rydym wedi dechrau datblygu ein hardal allanol yn barod i'w plannu yn ein potiau plannu; mae'r plant wedi dylunio ardal arddio, gyda maint ac ardal eistedd gysurus gan eu bod yn awyddus i wneud lluniadau o'r llysiau a'r blodau wrth iddynt dyfu. Dwi'n meddwl bod y plant yn mwynhau dod i wybod o ble mae eu bwyd yn dod, ac i allu ei weld unwaith y bydd yn dechrau tyfu. Mae'r rhieni a'r mam-guod a thad-cuod wedi bod ynglŷn â hyn ac mae ambell i fam-gu a thad-cu wedi bod yn cynnig ambell i awgrym neu dric i ni i'n helpu ar hyd y ffordd. Rydym yn ystyried gwneud pecynnau bychain a'u hanfon adref (hadau a photyn bychan) gan y bydd y plant am ddechrau plannu gartref, a bydd yn ffordd braf o'u dechrau ar eu ffoed yn annibynnol.'

Byddwn yn rhoi adborth ar hynt y prosiect yn ein rhifyn nesaf o'r Bont, ac yn clywed gan rai eraill o enillwyr ein cystadleuaeth.

# Hyfforddiant

## Llw Esblygiad Chwarae

18 mlynedd, dyna’r cyfan o amser a gewch i fod yn blentyn. 18 mlynedd cyn cael eich diffinio fel oedolyn, a’r holl ddisgwyliadau ynghylch ymgymryd â’r cyfrifoldebau sydd ynglŷn â hynny.

Os mai dim ond 18 mlynedd a gaiff plentyn, mae arnom ni, Weithwyr Chwarae ddyled i blant, i sicrhau bod y 18 mlynedd hynny’n llawn o gyfleoedd iddyn nhw chwarae, cael hwyl, gwneud ffrindiau a gwneud yr holl bethau sy’n gwneud bod yn blentyn mor arbennig.

Er mwyn i hyn ddigwydd mae ychydig bethau y mae angen i ni fel Gweithwyr Chwarae eu cofio:

- Ein rôl yw cefnogi a hwyluso cyfleoedd chwarae.
- Dylai’r ffocws fod ar gynllunio ar gyfer y chwarae, nid cynllunio’r chwarae ei hun. Gadewch i’r plant ddewis beth maen nhw am ei wneud. Chwarae yw gwaith plant, NHW yw’r bos!
- Darparu amgylchedd cyfoethog yn llawn o rannau rhydd (gyrfyrddau) sy’n rhoi digon o gyfle i chwilota, bod yn greadigol a chwarae.
- I fod yn amyneddgar, yn barod i addasu a gwrando ar y bobl yr ydym yn gweithio gyda nhw. Gwrando ar eu gweithredoedd a’u geiriau a rhoi lle iddyn nhw yn rhydd o farn, lle cânt eu cefnogi i wneud penderfyniadau da, a lle y gallant fod fel y maent, yn eu hamherffeithrwydd.
- Mae pob plentyn yn unigolyn arbennig o unigryw, ac er y dylid darparu cyfleoedd cyfartal iddynt, a’u cynnwys yn y Lleoliad, mae’n bosibl y bydd angen addasu rywfaint i sicrhau bod eu hanghenion unigol, eu hanghenon chwarae a’u hoffterau chwarae yn cael eu diwallu.

Felly, gwnewch lw gyda ni, i wneud yn sicr ein bod yn rhoi cyfleoedd sy’n creu’r adegau gorau a chofiadwy hynny i’r holl blant yr ydym yn gweithio gyda nhw. Ein bod yn sefyll dros hawl plant i chwarae, yn eiriolwyr dros chwarae, sy’n hyrwyddo chwarae a’r buddion a ddaw ohono. Beth fydd llw eich Lleoliad chi o ran chwarae plant?

## Diwrnod Chwarae Cenedlaethol 2021

Mae Clybiau Plant Cymru Kids’ Clubs wedi’u cyffroi ynghylch cynllunio’r hyn y byddant yn ei ddarparu ar gyfer Diwrnod Cenedlaethol Chwarae eleni. Wrth i ni barhau i addasu i’r normal newydd sy’n newid yn gyson, mae’n bwysig ein bod yn sicrhau bod plant yn cael cyrchu eu hawl i chwarae yn gyson.

Bydd y Diwrnod Chwarae ar Ddydd Mercher, Awst 4ydd yn rhoi cychwyn ar “Haf o Chwarae” yn 2021, ar thema o’r un enw. Bwriadwn groesawu’n llawn brwdfrydedd y syniad yma a hyrwyddo gemau stryd, a chael plant allan yn chwarae ac yn dod i wybod mwy am gemau newydd a hen.

Unwaith yn rhagor, byddwn yn rhannu ein holl weithgareddau a chyfleoedd Diwrnod Chwarae i ymgysylltu drwy ein cyfryngau cymdeithasol. Os nad ydych eisoes wedi gwneud, cofiwch eich bod yn hoffi ac yn dilyn ein tudalen Facebook, www.facebook.com/clybiau

## Y Cannoedd a Miloedd o Oriau o CHWARAE plant a gollwyd yn 2020

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi clywed a gweld sôn di-ben-draw ar y cyfryngau am sut y mae plant wedi bod ar eu colled o ran eu Haddysg, gweld eu teuluoedd a’u ffrindiau yn ystod Pandemig Covid-19, ond ychydig iawn ar faint y mae plant wedi ei golli o ran bod yn gallu chwarae.

Gwelais bost ar y cyfryngau cymdeithasol yn ddiweddar a’n trawodd fel ergyd o ran yr angen sydd ar blant i chwarae, dywedodd, “Os gall plentyn wneud mathemateg uwch, siarad 3 iaith a chael graddau uchel, ond yn methu ag ymdopi â’i emosiynau, ymarfer datrys gwrthdaro neu ymdrin â straen, nid fydd y pethau eraill o bwys o gwbl.”

Mae ar blant angen eu haddysg, ond mae arnynt hefyd yr ANGEN a’r hawl i Chwarae; drwy addysg mae plant yn dysgu pethau academaidd, ond drwy chwarae mae plant yn dysgu Sgiliau Bywyd holl, hollbwysig, nid yn unig pan fyddant yn blant, ond sgiliau sy’n eu cario drwy flynyddoedd glasoed ac fel oedolion. Byddai’r rhain yn bethau megis asesu a rheoli’r risgiau i’w cymryd, sydd yn hanfodol i’w goroesedd a’u dulliau ymdopi. Bydd rheoli eu risgiau eu hunain yn cyfrannu at eu datblygiad cyfannol, eu hunan-dyb, eu hyder, ac yn bennaf oll, eu gwydnwch, a fydd yn eu galluogi i wynebu a goresgyn rhwystrau dyddiol a sefyllfaoedd ansicr, Maen nhw’n dysgu’n gyson, mewn ffordd naturiol, drwy chwarae.

Maen nhw’n gallu dysgu sut i ffurfio perthnasoedd cadarn ag eraill, sut i negodi gydag eraill, pwy maen nhw’n hoff ohonynt, pwy nad ydynt yn hoff ohonynt. Maen nhw’n gallu dysgu sut i weithio fel tîm a dod i wybod beth maen nhw’n hoff o’i wneud, a beth nad ydyn nhw’n hoff o’i wneud, gyda’u hamser. Maen nhw hefyd yn gallu dysgu sut i fod yn nhw eu hunain ac ymdrin â straen. Dyma ddim ond ychydig o’r sgiliau y mae plant yn eu dysgu’n naturiol drwy chwarae. Fel Gweithwyr Chwarae rydym yn gwybod sut mae datblygiad plant yn gwella drwy chwarae, a sut y mae’n eu helpu i ddatblygu fel person.

Dwi wedi gweithio allan, os yw plentyn, ar gyfartaledd yn dod i’r Clwb Brecwast am awr bob bore a 2 awr mewn Clwb Ôl-ysgol bob diwrnod yn ystod y tymor dro flwyddyn, byddent wedi treulio 585 o oriau yn ein Clybiau mewn blwyddyn - dyna 585 awr a gollwyd ganddynt yn y flwyddyn ddiwethaf. Mae hynny heb gynnwys Clybiau Gwyliau, chwarae yn ystod adegau cinio yn yr ysgol a chwarae gyda’u ffrindiau yn gymdeithasol y tu allan i ysgolion a Chlybiau. Os cynhwyswn yr amser yma, collodd palnt y llynedd FILOEDD o oriau o chwarae; yr holl bethau allweddol y gwnaethom sôn amdanynt yn flaenorol yn yr erthygl hon wedi’u colli dros flwyddyn gyfan!

A phethau’n dychwelyd i’w normal neu’r ‘normal newydd’ mae’n rhaid i ni wneud yn sicr bod plant yn gallu chwarae; hyd yn oed â chyfyngiadau yn eu lle, mae pethau bychain y gallwch eu gwneud i’n cadw oll yn ddiogel, ond yn dal i chwarae.

Ambell i Awgrym a allai helpu’ch Lleoliad:

- Chwaraewch y tu allan gymaint â phosibl
- Defnyddiwch rannau rhydd y gellir eu hailgylchu wedi pob sesiwn
- Rhowch y cyfarpar mewn bocsys a’u defnyddio bob 72 awr
- Rhowch le ac amser iddyn nhw ail-addasu
- Byddwch â dealltwriaeth o’u hymddygiad, a derbyniwch hyn - mae’n bosibl y byddant yn mynegi’u hunain yn wahanol wedi’r flwyddyn y maen nhw wedi ei goddef
- Darparwch chwarae a fydd yn help iddynt ddeall eu hemosiynau – mae ganddyn nhw, gymaint â ni, lawer i ymdopi ag ef.

## Eiriol dros yr hawl i chwarae

Heddiw mewn cymdeithas mae Plant yn cael llai a llai o chwarae sydd wedi ei hunan-gyfarwyddo, gan gymryd rhan mewn mwy a mwy o weithgareddau sydd wedi eu trefnu. Byddai llawer ohonom, yn blant, wedi profi chwarae a ddewiswyd yn rhydd ac a fyddai’n cael ei gyfarwydd gennym ein hunain; byddai hyn wedi cynnwys chwarae allan ar y stryd, chwilota a mynd ar anturiaethau, adeiladu deniau a chwarae gemau stryd gyda ffrindiau. Weithiau ni fydda ein rhieni’n gwybod lle’r oeddem, ac yn amlach na pheidio, roedd hyn yn beth da. Pan oeddem allan ar ein pennau ein hunain roedd yn rhaid i ni benderfynu ar bopeth drosom ein hunain, gan ymdrin â risg drwy groesi ffyrdd a datblygu annibyniaeth.

Dyma pam fod yn rhaid i ni fel Gweithwyr Chwarae ddarparu ar gyfer plant yn y gymdeithas heddiw yr un anturiaethau a gawsom ni wrth dyfu. Rhaid i ni geisio’n gorau i ddarparu amgylchedd chwarae digolledol, gan roi cyfle i blant ymdrin â risg drostynt eu hunain, fel y gwnaethom ni wrth dyfu’n oedolion.

Mae Erthygl 31 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn yn datgan bod gan BOB plentyn yr hawl i orffwys a hamdden ac i allu cymryd rhan yn rhydd mewn chwarae a gweithgareddau difyrrus.
Fe wnaeth Sylw Cyffredinol 17 hefyd gydnabod a phwysleisio’r angen canolog am i blant gael yr amser, y lle a’r caniatâd i chwarae. Felly sut allwn ni, fel Clybiau Gofal Plant Allysgol, sydd wedi ein tanategu gan yr Egwyddorion Gwaith Chwarae a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn, wneud yn sicr ein bod yn gwneud hyn er mwyn rhoi i’r plant y cyfleoedd gorau, a hefyd sicrhau ein bod yn diwallu anghenion a hawliau plant?

Rhaid i ni ymdrechu i ddarparu darpariaeth chwarae o ansawdd, lle gall plant fod ynglŷn â chwarae sydd wedi ei ddewis yn rhydd, a’i hunan-gyfarwyddo, sy’n cyfrannu at eu datblygiad a’u llesiant iach, cyfannol. Dylai Gweithwyr Chwarae fod yn annog annibyniaeth, gan adael i’r plant deimlo fel petaen nhw’n sefyll ar eu traed eu hunain. Bydd y dull yma’n rhoi i blant y sgiliau angenrheidiol i gamu allan o sefyllfaoedd anodd, neu eu datrys y n y ffordd orau bosibl; ni fydd oedolyn yno bob tro yn barod i gynnig help llaw. Bydd hyn yn ei dro yn rhoi cyfleoedd chwarae gwell i blant, rhai a fydd yn gyfoethog o risg a her.

### Manteision Chwarae y Tu Allan i Ddatblygiad Iach a Llesiant Plant a Phobl Ifanc

Mae ANGEN i blant a phobl ifanc brofi llawer o gyfleoedd chwarae yn yr awyr agored er mwyn gallu datblygu eu sgiliau a’u hymddygiadau cymdeithasol, corfforol ac emosiynol Bydd rhyddid chwarae y tu allan yn cyfrannu’n aruthrol at eu sgiliau goroesi, eu gwybodaeth a’u hymwybyddiaeth o’u hamgylchedd, profi a gwthio’u ffiniau - gan eu galluogi i ddysgu am eu cryfderau a’u terfynau eu hunain a darganfod eu lle yn y byd a.y.b.

Beth bynnag y bo’r man awyr-agored, bydd cyfle i ni gyflwyno’r Cwricwlwm Gwaith Chwarae; mae darparu ar gyfer y Cwricwlwm Gwaith Chwarae’n hanfodol i lesiant iach plant

Mae ar blant angen profi a bod yn agored i’r agweddau a’r cysyniadau chwarae canlynol – a rhaid i leoliadau chwarae weithio i ddarparu ar gyfer y Cwricwlwm Gwaith Chwarae er mwyn gwneud y gorau o brofiadau’r plant a manteision chwarae o ran eu datblygiad.



## Staff Newydd yn Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs!

Ym mis Mai gyda phleser y croesawodd Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs 5 aelod newydd i’n tîm ledled Cymru.

Mae dau Swyddog Hyfforddi newydd wedi eu cyflogi yn rhan o’n gwaith Cynnydd ar gyfer Llwyddiant i gyflenwi cymwysterau Dyfarniad Lefel 3 mewn Trawsnewid i Waith Chware (o’r Blynyddoedd Cynnar): bydd Jacqui John yn gweithio o’n swyddfa yng Ngorllewin Cymru ac Emma Salter yn ein swyddfa yn Ne-ddwyrain Cymru. Bydd y ddwy yn ymuno â’n Swyddog Hyfforddi profiadol o Ogledd Cymru, Cath Smith, sydd yn awr yn Swyddog Hyfforddi Llawn amser yn cefnogi prosiect Cynnydd ar gyfer Llwyddiant.

Rydym wedi recriwtio dwy Weinyddydd i gefnogi prosiect Cynnydd ar Gyfer Llwyddiant, yn ogystal ag i gyflawni gofynion gweinyddol eraill o eiddo’r gyfundrefn: Bydd Jodie Clarke a Niccy Ling ill dwy yn gweithio o swyddfa De-ddwyrain Cymru.

Ac olaf, a chyn bwysiced, rydym wedi croesawu ein Swyddog Datblygu Busnesau Gofal Plant newydd, Sian James, a fydd yn gweithio o swyddfa Gorllewin Cymru ond yn cefnogi Prosiect Cymraeg Gwaith ar draws Cymru gyfan.

Y mae bob tro’n hyfryd gweld wynebau newydd yn ymuno â ni, ac rydym yn sicr y bydd y rhai hyn yn asedau i’n cyfundrefn, ac yn gymorth inni ddiwallu anghenion y Sector Gofal Plant Allysgol dros Gymru benbaladr!

# Fforio
## gyda Adele Nozedar

Helo 'na! Rhyfedd, on'd ydy, fel y mae popeth fel petaent yn cyflymu unwaith y daw mis Mehefin? Mae'r adar a oedd yn trydar ar doriad gwawr ddim ond ychydig wythnosau yn ôl yn dechrau cael rhai bach eu hunain. Mae'r dyddiau'n dechrau ynghynt, a'r nosweithiau'n mynd yn hwy. Mae'r ŵyn yn y caeau bron yn ddefaid, ddim yn rhuthro o gwmpas neu'n cwympo drosodd gymaint ag yr arferent ei wneud dro bach yn ôl, ond bellach yn gadarnach ar eu coesau bychain!

Hefyd, wrth i ni dreulio mwy o amser y tu allan, mae'n fwy tebygol y cawn ni doriadau, crafiadau a chleisiau. Ond y mae'n hawdd iawn gwneud balm lliniarol o lygaid-y-dydd; nid yn unig hynny, rwyf i'n grediniol iawn y gall unrhyw beth a wnawn ni ein hunain o'r byd naturiol o'n cwmpas fod hyd yn oed yn fwy pwerus o achos y cyffyrddiad bach hwnnw o hud yr ŷm ni'n ei ychwanegu. Rwyf wedi cynnwys cyfarwyddiadau fel y gallwch chi wneud eich balm arbennig eich hunain.

Ymhlith y pethau gwyllt y gallwch eu bwyta, ac sydd allan yn awr; rhai efallai yr hoffech eu bwyta, y mae dail siarp, egr sorel lemwn a hefyd, ffefryn gen i, cordial blodau'r ysgaw. Ry'ch chi'n defnyddio'r blagur i'w wneud; byddant yn aeddfedu ar wahanol adegau mewn gwahanol rannau Gymru, ond y prif beth i chi ei wybod yw y dylech eu casglu ar ddiwrnod cynnes, heulog pan fyddan nhw'n hollol sych. Gweler isod y rysáit i chi ei wneud gartref.

# Tyfu'ch Gwledd eich Hun
Fforio

## Balm Cleisiau Llygad-y-dydd

Rydym ni'n fwy tebygol o gael ein cleisio yn ystod misoedd yr haf pan fyddwn yn treulio mwy o amser y tu allan - a dyma pan fydd digonedd o Lygaid-y-dydd o gwmpas.



### Bydd angen arnoch:

- Jar 200 ml
- llygaid-y-dydd agored
- olew blodau'r haul neu lysiau
- cŵyr gwenyn neu olew cnau-coco solet

### Beth i'w wneud:

1. Ar ddiwrnod heulog, llenwch jar 200 ml yn llawn o lygaid-y-dydd sych, agored, gan eu gwasgu i lawr ychydig.
2. Arllwyswch olew blodau'r haul neu lysiau dros y llygaid-y-dydd, rhowch y clawr ar y jar a'i gadael ar sil ffenest heulog am un wythnos yn union.
3. Straeniwch y llygaid-y-dydd gan ddefnyddio gogr mân metel, gan gadw'r olew. Gall y llygaid-y-dydd fynd i mewn i'r compost.
4. Yn dyner, toddwch yr un swm naill ai cŵyr gwenyn neu olew cnau-coco colet gyda'r olew (nid oes raid i'r mesur hwn fod yn berffaith)
5. Arllwyswch yr hylif i mewn i jariau bychain, oerwch y rhain a marcio'r cynnwys yn glir. Cadwch nhw yn yr oergell, yn barod i'w defnyddio.
6. I'w ddefnyddio, does ond angen rhwbio ychydig o'r balm ar unrhyw gleisiau a gewch.

### Cyngor Iechyd a Diogelwch

- Gwiriwch yr ardal yr ydych yn fforio ynddi am unrhyw bethau miniog neu beryglus.
- Cofiwch wirio'r llygaid-y-dydd am unrhyw drychfilod bychain.
- Er bod pob elfen o'r balm yn fwytadwy, nid yw wedi'i ei fwriadu i gael ei fwyta, yn enwedig os oes risg bychan iawn o gael botwliaeth os gadewir y llygaid-y-dydd am 10 niwrnod neu fwy cyn eu straenio.

### Ffeithiau Hwyliog

Mae'r enw Cymraeg, Llygad-y-dydd, ar y blodyn oherwydd ei fod yn dechrau cau pan fydd hi'n nosi neu'n oeri.

Un enw Saesneg ar y blodyn hwn yw 'Bruisewort', am yr arferid ei ddefnyddio i leddfu cleisiau.


**Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs**
Tŷ'r Bont, Ffordd yr Orsaf, Llanisien, Caerdydd CF14 5UW
**T:** 029 2074 1000 **F:** 029 2074 1047 **E:** info@clybiauplantcymru.org
Cwmni cyfyngedig drwy warant 4296436
Elusen cofrestredig 1093260


# Tyfu'ch Gwledd eich Hun
Fforio

## Cordial Blodau'r Ysgaw

Mae'r ysgaw'n blodeuo'n hwyr yn y gwanwyn mewn perthi yn y wlad a gerddi/parciau mewn dinasoedd. Casglwch y blagur pan fydd gwres yr haul arnyn nhw.



### Bydd arnoch angen

- 1.5kg o siwgr gwyn, gronynnog
- 1.7 litr o ddŵr berwedig
- 20 pen blagur o flodau'r ysgaw, wedi eu casglu fel y disgrifir uchod
- 50g o asid sitrig (ar gael ar-lein)
- 2 lemon di-gŵyr, wedi eu sleisio
- Bydd hefyd angen cynhwysydd bwyd mawr arnoch. (Mae'r mwyafrif o archfarchnadoedd yn gwerthu rhai 20 litr da iawn, yn cynnwys y clawr hollbwysig yna, yn rhad iawn.)



### Beth i'w wneud

1. Toddwch y siwgr yn y dŵr berwedig a'i adael i oeri.
2. Ychwanegwch y cynhwysion eraill a gadael y cymysgedd hwn am 24 awr, gan wneud yn sicr fod y cynhwysydd â gorchudd drosto.
3. Straeniwch â gogr a'i arllwys i mewn i boteli glân, di-haint. Ffordd dda i storio'ch cordial yw mewn poteli plastig, hanner litr. Gadewch ychydig gentimetrau o le rhyngddynt eu rhewi, ac yna'u dadmer fel y bydd eu hangen arnoch.

### Cyngor Iechyd a Diogelwch

- Dylai oedolion oruchwylio toddi'r siwgr mewn dŵr berwedig.
- Cofiwch y bydd y burumau byw mewn cordial blodau'r ysgaw yn gwneud i'r ddiod befrio, a gallai potel wedi'u gadael ar dymheredd ystafell ffrwydro!
- Cymerwch eich toriadau o flodau'r ysgaw o sawl math o goed fel y gall aeron ffurfio ar bob coeden unigol. Mae eu hangen ar adar ac anifeiliaid yn yr hydref.

### Ffeithiau Hwyliog

Mae'r Ysgawen, neu'r Sambucus Nigra wedi bod o gwmpas ers yr Oes Iâ ddiwethaf (12,000 o flynyddoedd yn ôl).
Mae blodau'r ysgaw ac aeron wedi'u hen ddefnyddio mewn meddyginiaethau gwerin, yn enwedig i wella iechyd resbiradol.


**Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs**
Tŷ'r Bont, Ffordd yr Orsaf, Llanisien, Caerdydd CF14 5UW
**T:** 029 2074 1000 **F:** 029 2074 1047 **E:** info@clybiauplantcymru.org
Cwmni cyfyngedig drwy warant 4296436
Elusen cofrestredig 1093260

# Cymraeg



## **Posteri Cymraeg AM DDIM i leoliadau aelodau**

Gall defnyddio ychydig bach o Gymraeg yn eich lleoliad gofal plant wneud gwahaniaeth mawr. Wrth baratoi ar gyfer ailagor ysgolion, hoffem dynnu sylw at ein posteri Cymraeg AM DDIM o'r enw 'Nôl i'r Ysgol' na 'Chwarae', ar gyfer eich lleoliadau. Dadlwythwch eich copïau o'r posteri hyn AM DDIM yma - http://bit.ly/Work-Welsh-Posters

I gael rhagor o wybodaeth am ffyrdd eraill o gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn eich lleoliad gofal plant, cysylltwch â - Gogledd Cymru - catherines@clybiauplantcymru.org / De Ddwyrain Cymru - phoebew@clybiauplantcymru.org / Gorllewin Cymru - janinee@clybiauplantcymru.org

Mae eich Gwlad eich angen chi …… rydyn ni eich angen chi ... i gyflawni ein miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 #activeoffer #siaradcymraeg #chwarae #Play #millionwelshspeakers

Mae Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs yn dal i chwarae rôl weithredol yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a chefnogi targed Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 drwy brosiect Cymraeg Gwaith, a'n hymroddiad parhaus i rymuso pobl i ddefnyddio mwy o'r Gymraeg.

Rydym wedi ymrwymo i gynyddu'r defnydd o'r iaith Gymraeg, gan ganiatáu i blant a theuluoedd gyrchu cyfleoedd chwarae a gofal plant yn yr iaith o'u dewis, gan warchod yr iaith ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae lleoliadau sydd wedi cael cefnogaeth i gynyddu eu defnydd o'r iaith Gymraeg wedi rhoi'r adborth canlynol:

"Fe wnaethom fwynhau gwylio'r weminar fel tîm, ac mae'n dda gwybod y gallwn gynnwys tipyn o Gymraeg ychwanegol yn y lleoliadau ddim ond wrth newid pethau bach yn y clwb."

"Mae'r plant wedi mwynhau arddangos eu gallu yn y Gymraeg."

"Diolch gymaint i chi am rannu'r weminar gyda ni; mae wedi ein helpu drwy ein hannog i ddefnyddio Cymraeg sylfaenol, achlysurol drwy'r lleoliad i gyd.

"Gwnes wirioneddol fwynhau'r weminar, ac rydym yn teimlo'n llawer mwy hyderus yn defnyddio'r Gymraeg yn ein lleoliad."

Os hoffech chi gefnogaeth gan ein Swyddog Datblygu Busnesau Gofal Plant Iaith Gymraeg newydd i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn eich lleoliad, cysylltwch â'ch swyddfa ranbarthol os gwelwch yn dda:

Swyddfa Caerdydd:
info@clybiauplantcymru.org
Swyddfa Bae Colwyn:
info-nw@clybiauplantcymru.org
Swyddfa Cross Hands:
info-ww@clybiauplantcymru.org

## Cwrs Camau Newydd

Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol wedi datblygu cwrs Cymraeg ar-lein newydd i alluogi dysgwyr i ddysgu a chynyddu eu defnydd o'r Gymraeg heb orfod gadael eu cartref, ac ar eu cyflymder eu hunain.

https://dysgucymraeg.cymru/cymraeg-gwaith/camau/

Camau
Cynllun Dysgu Cymraeg Addysg a Gofal Plant Blynyddoedd Cynnar / Learn Welsh Scheme for Early Years Education and Childcare

Cymraeg Gwaith
Work Welsh

### Cwrs Camau 2021

- Cwrs hunan-astudio ar-lein
- Lefel Mynediad (addas i ddechreuwyr, a rhai sydd wedi cwblhau Cyrsiau Blasu)
- Tua 20 awr o ddysgu annibynnol
- Dysgu Cymraeg i'w ddefnyddio gyda'r plant
- Ynganu'r Wyddor, lliwiau, dyddiau'r wythnos a rhifo
- Dysgu gorchmynion a chyflwyno arddodiad
- Wedi'i ariannu'n llwyr

### Camau Course 2021

- Online self-study Welsh course
- Entry Level (suitable for beginners, and those who've completed Taster Courses)
- Approx 20 hours of independent learning
- Learn Welsh to use with children in settings
- Pronouncing colours, days of the week and numbering
- Learning commands and introducing prepositions
- Fully-funded

Am fwy o wybodaeth ewch i / For more information visit:
https://dysgucymraeg.cymru/cymraeg-gwaith/camau/

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru



# Codi Hwyl wrth Godi Arian

## Codi Arian 'Tyfu'ch Gwledd eich Hun'

Ydych chi wedi gweld ein postiau cyfrwng-cymdeithasol ac adnoddau pecyn Tyfu'ch Gwledd eich Hun eto? Dilynwch ni ar Facebook (www.facebook.com/clybiau) neu ewch i'n gwefan am fwy o wybodaeth.

Gall y cyfan o'n hymdrech dyfu a chynaeafu gyrraedd ei phenllanw mewn digwyddiad Dathlu eich Gwledd eich Hun y gellir ei ddefnyddio i helpu i godi arian i'ch clwb.

Nid yw o bwys cyn lleied na chymaint yr ydych wedi llwyddo i'w dyfu; mae'n esgus da i ddathlu gwyrth natur a dod at eich gilydd i fwynhau (hyd yn oed os oes yn rhaid i chi brynu peth o'r bwyd). Wrth gwrs, bydd graddfa'r digwyddiad yn dibynnu ar sut y mae Covid-19 yn dal i effeithio ar ein gwlad, ond dylai'r plant yn y lleoliad o leiaf gael cyfle i ddathlu eu hymroddiad a'u hymdrech.

Penderfynwch pwy i'w gwahodd, a dyluniwch wahoddiadau. Gallech drefnu:
· taith o gwmpas eich man tyfu
· arddangosiadau coginio a blasu (yn ein pecyn adnodd Tyfu'ch Gwledd eich Hun mae gennym ryseitiau hyfryd o ddips danteithiol a rhai sy'n berffaith ar gyfer coginio awyr-agored)
· cylchoedd coginio-tân neu wledd eistedd-i-lawr
· cyflwyniad fideo neu ffotograff i arddangos eich siwrnai dyfu eich hun
· seremoni wobrwyo i blant ac eraill sydd wedi helpu ar hyd y ffordd
· plannu drosoch eich hun e.e. blodyn haul i westeion gymryd adref gyda nhw, neu gynnwys plant/gwesteion mewn casglu neu rannu hadau fel y gellir tyfu mwy o gynnyrch yn gynaliadwy y flwyddyn nesaf
· cerddoriaeth, gemau, canu a dawnsio i ddathlu.

I godi arian gallech:
- werthu hadau neu blanhigion
- talu ffi am fwrdd neu fynediad, neu am gymryd rhan mewn unrhyw arddangosiadau coginio/blasu

Os ydych yn cyflenwi bwyd yn achlysurol ac ar raddfa fach, mae'n annhebygol y bydd angen i chi gofrestru, ond mae angen i chi gyfeirio at arweiniad yr Asiantaeth Safonau Bwyd Darparu bwyd mewn digwyddiadau cymunedol ac elusennol | Asiantaeth Safonau Bwyd. [Cyrchwyd 13 04 21]

## Cefnogaeth Fusnes i gefnogi Cynaliadwyedd

Ym mis Mehefin nod ein gweminarau Arian Arian Arian!, Cyllid ac Ariannu Rhan 1 a 2 oedd eich helpu i roi trefn ar eich sefyllfa ariannol a gwneud cais am arian os oedd yn rhaid . Yr haf/hydref yma byddwn yn cyflenwi gweminar ar thema marchnata i'ch helpu i roi hwb i'ch niferoedd. Os nad oeddech/ydych yn gallu bod yn bresennol, cysylltwch â'ch Swyddog Datblygu Busnesau Gofal Plant, a all ddarparu cefnogaeth o fath arall.

Mae gennym hefyd rychwant eang o adnoddau ar yr ardal aelodau, wedi ei seilio ar y themâu yma:

| Cynllunio Ariannol, Systemau Ariannol a Chynaliadwyedd | Marchnata |
|---|---|
| Mae hyn yn cynnwys cefnogaeth o ran e.e.:<br>• Paratoi a chadw cyfrifon<br>• Pwysigrwydd cwblhau cyfrifon diwedd-y-flwyddyn<br>• Ymgymryd dadansoddiad SWOT<br>• Templed rhagolwg llif arian a gweminar wedi ei recordio ymlaen llaw | Mae'r adnoddau marchnata ar ardal aelodau ein gwefan yn cynnwys:<br>• Templed Cefnogwch neu Collwch/Help! I Glybiau sy'n wynebu cau, er mwyn ennill cefnogaeth y gymuned.<br>• Gwybodaeth am ddod o hyd i'ch Pwynt Gwerthu Unigryw eich hun, a sut i greu delwedd broffesiynol, gyhoeddus (e-bost/ffôn)<br>• Taflenni templed i Leoliadau sydd wedi'u cofrestru<br>• Templed newyddlen ac ambell i awgrym ar sut i lunio newyddlen<br>• Arweiniad ar sut i ddatblygu strategaeth farchnata<br>• Gweminar wedi ei recordio ymlaen llaw i'ch cefnogi i ddatblygu proffil cyfrwng-cymdeithasol a'i ddefnyddio'n effeithiol. |

Mae gennym hefyd ddewis eang o weminarau yn y Saesneg a'r Gymraeg sydd wedi eu recordio ymlaen llaw; maent yn cynnwys:
- Cynllunio Ariannol – Rhagolygon Llif Arian
- Systemau Ariannol a
- Marchnata ar y Cyfryngau Cymdeithasol, yn cynnwys sut i sefydlu cyfrifon Facebook a Twitter

Gallwch ofyn am unrhyw un o'r gweminarau isod drwy anfon e-bost atom yn webinar@clybiauplantcymru.org

## Magic Little Grants Fund – ar agor hyd at Hydref 31ain 2021

Nod Cronfa Magic Little Grants yw cefnogi sefydliadau i gael hyd i grant drwy gwblhau ffurflen gais fer. Mae'r ariannu'n cael ei darparu diolch i chwaraewyr Loteri Cod Post y Bobl. Magic Little Grants (localgiving.org) [Cyrchwyd 19 04 2021]

Mae Cronfa Magic Little Grants yn rhoi i elusennau a grwpiau cymunedol yn y DU y cyfle i gael hyd i ariannu i gyflenwi dewis eang o brosiectau sy'n cyfateb ag un neu fwy o'r themâu ariannu isod:
1. Gwella llesiant meddyliol
2. Galluogi cyfranogaeth gymunedol yn y celfyddydau
3 Atal neu leihau effaith tlodi
4. Cefnogi grwpiau ar yr ymylon a hyrwyddo cyfartaledd
5. Gwella bioamrywiaeth a mannau gwyrdd
6. Galluogi cyfranogaeth mewn gweithgaredd corfforol
7. Ymateb i'r argyfwng hinsawdd a hyrwyddo cynaliadwyedd
8. Cynyddu mynediad y gymuned i fannau awyr-agored

Mae gofyn i sefydliadau fodloni'r meini prawf canlynol i wneud cais:
- Rhaid bod gennych incwm blynyddol o lai na £250,000.
- Rhaid i'ch prosiect arfaethedig ateb un o'r themâu ariannol a restrir uchod.
- Yn gweithredu yn Lloegr, Yr Alban neu Gymru
- Ni fydd prosiectau sy'n cael eu rhedeg gan sefydliadau statudol yn gymwys.

### Cefnogwch Ni wrth inni'ch Cefnogi Chi!

Nid yw siopa ar-lein drwy www.easyfundraising.org.uk/clybiauplantcymrukidsclubs yn costio ceiniog yn ychwanegol, ond y mae'n caniatáu i ni dderbyn hyd at 15% o bob pryniant a wnaed o'r 400+ o siopau a restrir, gan olygu y bydd gennym fwy o arian i barhau i gefnogi clybiau megis eich clwb chi.

### e-newyddion

Fel aelod-glwb cewch afael ar ôl-rifynnau ein bwletinau e-newyddion yn ardal aelodau ein gwefan, sef www.clybiauplantcymru.org ac os oes gennym gyfeiriad ebost ar eich cyfer, anfonir rhifynnau o'r Bont i'r dyfodol atoch yn uniongyrchol. Anfonwch eich manylion ebost imembership@clybiauplantcymru.org er mwyn sicrhau eich bod yn derbyn eich copi electronig.




# Prosiectau

## Yn yr Ardd gyda Terry Walton

Wrth i ni gyrraedd canol yr haf mae'n amser cael yn ôl o'r holl blannu a thaenu had!. Mae'r cnydau'n cyrraedd eu haeddfedrwydd ac mae'r cynhaeaf ar y ffordd. Dyma'r amser gorau yn yr ardd pan allwn wledda ar ein cynnyrch cartref ein hunain. Mae'r plât salad wedi ei lenwi â letys, radish, shibwns, betys, ciwcymbrau a thomatos. Mae'r prydau poeth wedi eu llenwi â thatws, moron, bresych a ffa. Mae popeth ym myd garddio'n ardderchog.

I wneud yn siŵr fod y cnydau yma'n dal i gynhyrchu ar eu gorau a darparu cnydau maethlon, blasus, rhaid gofalu amdanynt. Ar adegau sych bydd angen symiau helaeth o ddŵr arnynt a rhaid eu bwydo o leiaf ddwywaith yr wythnos. Mae fy mhrif fwydydd i'r cnydau yn dod o ddefnyddio cyfardwf a danadl, wedi eu casglu'n lleol, a'u rhoi mewn casgen o ddŵr. Wedi pythefnos mae'r cymysgedd yn fwyd cryf ei arogl, ond cyfoethog iawn, i bob cnwd. Ond fel ni, mae arnynt angen trît yn eu deiet, a dwi'n prynu rhin gwymon er mwyn rhoi ychydig o newid yn eu deiet. Bydd yr holl fwydo rheolaidd yma'n ymestyn y tymor cnydau ac yn rhoi cynaeafau hael.



Gofynnir i mi'n aml pa bryd y bydda i'n gwybod bod llysieuyn yn barod i'w gynaeafu. Mae hyn fel ar fer yn amlwg gan y bydd eich llygaid yn dweud wrthych fod tomato yn aeddfed neu fod ffeuen yn ddigon mawr i'w fwyta. Ond mae cnydau sy'n tyfu o dan y pridd yn anweledig! Os y w'r pennau'n fawr, cryf ac iawn, mae siawns eitha da y bydd yna gnwd o dan y ddaear. Y mae bob tro'n werth gwirio, a bydd crafu'r pridd oddi ar ben uchaf moronen yn rhoi'r ateb yn ddi-gwestiwn. Gallwch wirio tatws ddim ond drwy balu am un, ac os oes digon o gloron gwyn yn bresennol, yna mae'n debygol y bydd y gweddill yr un fath. Profiad sy'n barnu orau!

Y prif bleser yn yr ardd yr adeg yma o'r flwyddyn yw y gallwch, wrth gymryd eich coffi boreol, gasglu ambell i gnwd i'w cael fel snac canol-bore. Y cnwd mwyaf blasus i mi yw pysen ardd, sydd yn felys y tu hwnt newydd ei whtio o'i choden. Mae moronen grensiog i gyd-fynd â hyn yn bleser pur. Ac o'u dilyn â thomato aeddfed wedi ei gynhesu yn yr haul, dyma wedd newydd ar giniawa ysblennydd!

## Ddim syniad am gwrs cyntaf?
### Rhowch gynnig ar ein Dip Shibwns gyda chaws a chracers!

### Bydd arnoch angen

- 3 shibwnsyn, wedi eu pilio a'u haneru (gallwch eu hamnewid am 1 winwnsyn/ nionyn wedi ei bilio a'i dorri'n chwarteri)
- 6 shibwnsyn, wedi eu tocio
- ·½ llwy fwrdd o olew hadau rêp (byddai olew olewydd neu lysiau'n iawn)
- 100g o iogwrt Groegaidd
- 1 ewin bychan o arlleg, wedi'i gratio'n fân
- ·2 lwy fwrdd o sifys, wedi eu torri'n fân



### Beth i'w wneud

1. Gwasgarwch rywfaint o olew dros y shibwns neu'r winwns/ nionod a'u rhostio ar wres o 80oC/160oC ffwrn ffan/marc 4 ffwrn nwy am 25-30 munud news eu bod yn euraidd ac yn feddal.
2. Gadewch nhw i oeri, ac yna roi tro iddyn nhw mewn prosesydd bwyd ynghyd â'r iogwrt, garlleg a hanner y sifys neu fod y cymysgedd yn llyfn.
3. Ychwanegwch y sesnin. Gweinwch â'r sifys dros ben wedi eu gwasgaru drostyn nhw.

TESCO
Bags of Help

### *Tyfu'ch Gwledd eich Hun gyda Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs*

*Rhoi i blant syniadau, adnoddau a gweithdai hwyliog, rhyngweithiol er mwyn mynd i'r awyr agored, tyfu, cynaeafu a choginio eu gwledd eu hunain a gwneud dewisiadau iach o ran bwyd drostynt eu hunain.*

Diolch i Grantiau Canmlwyddiant Tesco mae gennym y cynllun cyffrous, 'Tyfu'ch Gwledd eich Hun' ar gyfer Clybiau. Rydym yn annog Clybiau i dyfu, cynaeafu a choginio eu gwledd ddathliadol er mwyn iddynt allu ei rannu gyda'u teuluoedd a'u cymunedau, a hefyd i rannu eu profiadau gyda ni ar y cyfryngau cymdeithasol er mwyn annog eraill: yr hadau cyntaf i gael eu hau, cynaeafu a gwledda yn yr awyr agored!

Rydym wedi datblygu gweithgareddau garddio a choginio gwych, ac rydym hefyd wedi ein cyffroi'n fawr i rannu ambell i syniad fforio a ddatblygwyd gan Adele Nozedar, y gallwch chi hefyd fod ynglŷn â nhw. Doedd hi ddim gymaint â hynny yn ôl pan oedd angen i bobl gasglu planhigion gwyllt i oroesi o ran bwyd a meddyginiaeth, ac mae'r planhigion gwyllt yma'n dal i'n helpu ni heddiw.

Edrychwch am 'Tyfu'ch Gwledd eich Hun' ar ein gwefan, i wirio rhai o'r gweithgareddau yr ydym eisoes wedi eu datblygu, a dilynwch ni ar facebook/twitter.

### Syniadau Coginio i'ch Prosiect Tyfu'ch Gwledd eich Hun

A'r planhigion yn eich gerddi'n tyfu ar garlam yn y cynhesrwydd wrth i'r haf ddod yn nes, yn awr yw'r adeg i edrych ymlaen a dechrau cynllunio'r hyn yr ydych am ei wneud gyda'ch cynnyrch, a sut fydd eich gwledd ddathliadol yn edrych, Y mae'n amser da i ddechrau arbrofi â blasau a chyfuniadau er mwyn gwneud ambell i bryd blasus ar gyfer eich gwledd.

Os nad oes gennych ddyddiad wedi ei gynllunio eisoes ar gyfer eich gwledd, beth am ei chynnal yn ystod Pythefnos Fwyd Prydain (British Food Fortnight: (www.lovebritishfood.co.uk) sy'n digwydd bob blwyddyn yn ystod wythnos olaf mis Medi ac wythnos gyntaf mis Hydref, amser traddodiadol gŵyl y cynhaeaf.

Gobeithio eich bod erbyn hyn wedi cael siawns i ymuno yn ein prosiect drwy ein sianelau Cyfrwng Cymdeithasol. Gobeithiwn eich bod wedi cael eich ysbrydoli i geisio fforio yn eich ardal leol, gydag awgrymiadau a chanllawiau gan Adele Nozedar (www.breconbeaconsforaging.com), a hefyd wedi ymweld â rhandir Terry Walton yng Nghwm Rhondda drwy Twitter (@ theterrywalton) am rywfaint o ysbrydoliaeth ar beth i'w dyfu a sut i'w dyfu.

Cofiwch - fel y mae defnyddwyr rhandiroedd wedi bod yn ei wneud ers blynyddoedd - bwysigrwydd Lleihau, Ailddefnyddio ac Ailgylchu. Rydym am weld eich defnydd arloesol o ddefnyddiau wedi'u hailgylchu yn eich gweithgareddau garddio, coginio ac addurno, felly cofiwch i'n tagio yn eich postiau cyfrwng cymdeithasol.

## Cysylltu a Chefnogi Clybiau Gofal Plant Allysgol a Chymunedau, wedi ei ariannu gan Gronfa Gymunedol y Lotri Genedlaethol

Mae tri Swyddog Datblygu Busnesau Gofal Plant Rhanbarthol – Becky, Janine a Sandra ar gael i'ch helpu gyda:

- Sesiynau sgiliau busnes, yn cynnwys materion ariannol ac ariannu, hyrwyddo eich Clwb Allysgol, a pholisïau a gweithdrefnau.
- 'Gweminarau Rhwydwaith' bob tymor – gweler isod.
- Cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) i arddangos ansawdd i rieni ac arianwyr a'u galluogi i gofrestru am fentrau sy'n gwella fforddiadwyedd i rieni, megis Y Cynnig Gofal Plant a Gofal Plant Di-dreth.
- Cynlluniau gweithredu wedi eu datblygu o asesiadau ansawdd (Asesiadau Allysgol i adeiladu ar gryfderau a chefnogaeth gydag Adolygiad Ansawdd Gofal AGC.
- Cryfhau eich llywodraethiad a chyfyngu ar gyfrifoldeb ariannol unigolion.

Cysylltwch â'ch Swyddog Datblygu Busnesau Gofal Plant neu eich Tîm Rhanbarthol os hoffech wybod mwy am y gefnogaeth sydd ar gael.

Swyddfa Caerdydd:
info@clybiauplantcymru.org
Swyddfa Bae Colwyn:
info-nw@clybiauplantcymru.org
Swyddfa Cross Hands:
info-ww@clybiauplantcymru.org



### Ymunwch â'n gweminarau rhwydwaith o'ch cartref eich hun!

Mae ein gweminarau rhwydwaith bob tymor yn gyfle i glybiau ddod at ei gilydd a thrafod pynciau perthnasol yr ydych chi wedi eu codi. Mae gennym ddewis eang o ddigwyddiadau rhwydwaith amrywiol, ar-lein y gallwch archebu'ch lle arnynt ar https://www.clybiauplantcymru.org/training-events.asp

Yn Ionawr rhoesom gychwyn arni gyda'n gweminarau 'Dod yn SCE' i glybiau a reolir yn wirfoddol. Ym mis Mawrth prif themâu ein gweminarau rhwydwaith oedd sut y gall yr Asesiad Allysgol (gweler isod) helpu gyda'ch Adolygiad Ansawdd Gofal i AGC (sydd yn rhaid ei ddiweddaru mewn pryd ar gyfer yr Hunanasesiad Gwasanaeth yr haf yma) yn ogystal ag ar gyfer gwella parhaus eich Lleoliad, ynghyd ag arddangosiad gweledol o'r gwahanol fathau o chwarae a'r mannau chwarae sydd eu hangen ar blant. Ffocws gweminarau eraill oedd materion ariannol ac ariannu, ac yn nes ymlaen yn y flwyddyn byddwn hefyd yn cyflenwi gweminar ar y thema, marchnata.

### Asesiad Gofal Plant Allysgol (AGPA)

Pwrpas yr Asesiad Gofal Plant Allysgol (AGPA) yw bod yn wiriad hunan-iechyd eich busnes gofal plant, yn eich helpu i weld pa bethau yr ydych yn eu gwneud yn dda, ac ym mhle y gallech wella.

Y mae'n holiadur ar ddull rhestr wirio syml sy'n gofyn i chi adlewyrchu ar wahanol agweddau ar eich busnes, megis y ddarpariaeth chwarae, hyfforddiant ac ansawdd, rheolaeth ariannol a hyrwyddo. Y mae hefyd yn cefnogi eich Adolygiad Ansawdd Gofal ar gyfer Arolygiaeth Gofal Cymru, sydd yn rhaid ei ddiweddaru erbyn Hunanasesiadau Gwasanaeth Arolygiaeth Gofal Cymru ym Mehefin 2021.

Yna gall yr Asesiad Gofal Plant Allysgol gyfrannu at Gynllun Gweithredu fel y gallwch ddal i weithio i wneud eich gwasanaeth gofal plant y gorau y gall fod.

Gallwn eich cefnogi ym mhob cam a darparu arweiniad ac adnoddau i gynorthwyo unrhyw anghenion a nodwyd. Os hoffech fwy o wybodaeth ar yr Asesiad, a help i ddatblygu cynllun gweithredu, yn cynnwys adlewyrchu ar eich darpariaeth chwarae, cysylltwch â'ch Swyddog Datblygu Busnesau Gofal Plant, eich Swyddfa Ranbarthol, neu lenwch y canlynol ar-lein. https://forms.gle/AYYo6yNX6h8PXRZh7.

CRONFA GYMUNEDOL COMMUNITY FUND


## Y Sefydliad Cymunedol yng Nghymru, Cronfa Plant a Phobl Ifanc

Yn 2020/21 dechreuodd Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs brosiect ar sail STEM (Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg) ar y cyd â Chlybiau Gofal Plant Allysgol gwirfoddol yn Rhondda Cynon Taf, De-ddwyrain Cymru, wedi ei ariannu drwy'r Gronfa Plant a Phobl Ifanc. Yn anffodus, oherwydd brigiad Covid-19 ym Mawrth 2020, nid oedd modd cyflenwi'r ychydig o weithdai Clwb terfynol, felly cynlluniwyd ar gyfer eu cwblhau'n ddiweddarach yn y flwyddyn. Fel y gwyddom bellach, nid dyna oedd cynlluniau'r Pandemig, ac felly cawsom ein gadael yn ceisio meddwl sut orau i gefnogi amcanion y prosiect (sef ennyn brwdfrydedd plant ynghylch STEM a chefnogi profiadau chwarae o ansawdd mewn Clybiau Gofal Plant Allysgol) o fewn y cyfyngiadau presennol.

Drwy gydol rhan gyntaf 2021, roedd ein Swyddogion Hyfforddi'n gweithio'n galed yn tynnu at ei gilydd weithgareddau hwyliog, ymarferol wedi eu seilio o gwmpas gwyddoniaeth, a llunio cardiau gweithgaredd i fod yn sail pecyn 'Parth Gwyddoniaeth' Newydd. Mae'r Clybiau Gofal Plant Allysgol a fu'n rhan o'r prosiect gwreiddiol wedi derbyn copïau o'r cardiau dwyieithog hyn, ac anfonwyd atynt hefyd adnoddau amrywiol i gynorthwyo gweithgareddau'n seiliedig ar wyddoniaeth yn y Clybiau.

Mae'r pecyn gweithgaredd dwyieithog yn awr ar gael i bob Clwb ledled Cymru sy'n aelod, drwy adran aelodau ein gwefan!

Cyfeillion Sefydliad Cymunedol Cymru






# Addewid Amgylcheddol

Cyn pandemig Covid-19 darparwyd cefnogaeth i'r sector Gofal Plant Allysgol, a chyflenwyd yr hyfforddiant, bron yn gyfan gwbl wyneb yn wyneb, gan olygu bod y staff yn teithio dros 54,000 o filltiroedd bob blwyddyn. Nid yw'r ffigur hwnnw'n cynnwys y milltiroedd y mae Dysgwyr yn ogystal wedi eu teithio i fynychu sesiynau, ac â thros 88,000 yn bresennol mewn cyrsiau hyfforddi rhwng 2003 a 2020, mae'r nifer hon yn debygol o fod gryn dipyn yn uwch. Ynghyd â'r milltiredd, rydym fel cyfundrefn hefyd yn defnyddio symiau mawr o argraffu, ag inc, cetrisau a thros 10,000 dalen o bapur yn cael eu defnyddio'n flynyddol.

Mae ariannu drwy brosiect Hwb i'r Hinsawdd Cronfa Gymunedol y Lotri Genedlaethol wedi rhoi i ni'r gallu ariannol i gymryd yr amser i adolygu ein hisadeiledd TG, symleiddio ein prosesau a chwtogi ar ein defnydd o nwyddau traul megis papur ac inc, gan, yn y pen draw, wella ein hymroddiad o warchod yr amgylchedd ar gyfer y dyfodol.

Yn rhan o'r gwaith hwn, byddwch wedi gweld, rhwng Ebrill 19eg a'r 23ain , wedi ymuno â chyfundrefnau eraill sydd wedi derbyn arian gan y Lotri Genedlaethol i wneud ein Haddewid Amgylcheddol (Planetary Promise). Mae'r holl ymgyrch yn ymwneud â'r pethau bychain y gallwn ni oll eu gwneud, fel unigolion, cymunedau a chyfundrefnau, i fod yn fwy cynaliadwy o ran yr amgylchedd.

Ein Haddewid Amgylcheddol yw i:
· Arbed papur
· Lleihau ein defnydd o ynni
· Lleihau ein hôl-troed carbon
· Gwarchod y blaned ar gyfer y dyfodol.

Gwyliwch ein fideo byr yma: http://bit.ly/Planetary-Promise

Mae gennym oll ran i'w chwarae i leihau ein heffaith ar yr amgylchedd, a chyda'n gilydd gallwn oll wneud effaith gadarnhaol; beth fydd eich Addewid Amgylcheddol chi?

Rhannwch eich
Addewid Amgylcheddol
#PlanetaryPromise




environment

# Mae'n Bryd am Barti!

Mae plant wedi dangos gwydnwch aruthrol dros gyfnod y Pandemig, ond wedi methu cymaint. Yn ogystal â'r oriau o chwarae a fethwyd, a'r profiadau gyda ffrindiau a fethwyd, mae plant hefyd wedi methu partïon – eu partïon eu hunain a phartïon pobl eraill, disgos ysgol, partïon Nadolig, partïon/triciau/tric neu drît Calan Gaeaf …

- Pa ffordd well o adnabod a dathlu'r gwydnwch y mae plant wedi ei ddangos, a diolch iddyn nhw am fod y sêr disglair yr ydynt , na thrwy gynnal parti arbennig? Gall cynnal parti/disgo:
- Fod yn barti pen-blwydd i'r holl blant - cynhaliwch 'sesiwn gynllunio' gyda'r plant i sôn am y pethau y byddech wedi eisiau eu gwneud yn achos unrhyw ben-blwyddi a fethwyd yn ystod y Pandemig, a dowch o hyd i ffyrdd o ymgorffori elfennau o'r syniadau hyn yn eich cynlluniau. Cynhwyswch gacen ben-blwydd a chanwch 'pen-blwydd hapus' neu 'am-mhen-blwydd hapus' os ydych am efelychu'r Mad Hatter!)
- Gwnewch i bob plentyn deimlo'n arbennig Gallech wneud hyn ddim ond drwy wneud yn siŵr fod pob un o'r plant â rhan yn y parti. Gallech osod 'carped coch' allan a chael y staff yn gwneud ffŷs o bawb wrth iddynt gyrraedd fel selebs. Neu gallech roi rhodd 'diolch' (ben-blwydd) fechan i bob plentyn fynd adref gyda nhw.
- Rhowch gyfle i'r plant gymryd rhan, bod yn greadigol a chael synnwyr o berchnogaeth dros y digwyddiad. Cynhwyswch blant o'ch dechrau drwy roi cyllideb iddyn nhw a gadael iddyn nhw gynllunio'r parti eu hunain. Gallent ffurfio timau 'addurno', 'arlwyo' a 'difyrrwch', trefnu bwydlen, rhestr o ganeuon, gemau, themâu ac addurniadau. Gallent hyd yn oed lunio gwahoddiadau a allent fod yn hysbysebion ar gyfer mynychwyr posibl eraill.
- Darparwch fodd marchnata rhagorol i'ch gwasanaeth: hysbysebwch y parti ymlaen llaw i gynyddu'r archebion am le, a defnyddiwch ef fel ffordd i wirioneddol werthu'r ddarpariaeth yr ydych yn ei chynnig. Os yw'r plant yn cynllunio'r parti eu hunain, diweddarwch eich tudalen cyfrwng-cymdeithasol â'r 'newyddion yn syth o'r wasg' ac yna gwnewch yn siŵr eich bod yn rhannu'r adborth am lwyddiant eich parti gyda'ch cymuned hefyd!

Awgrym ardderchog! Mae gennym gerdyn dwyieithog yn ein pecyn, 'Tyfu'ch Gwledd eich Hun' newydd, wedi ei ariannu gan Fagiau Cymorth Tesco. Mae'r cerdyn ynghylch cynnal digwyddiad dathlu a'r pethau y carech eu cynnwys efallai (e.e. gwneud eich llinyn-o-fflagiau eich hun). Gwelwch y pecyn ar ein gwefan!





# Beth y mae Gofal Plant Allysgol yn ei olygu i'm teulu

Naomi Evans, Rheolwr Tim De Ddwyrain Cymru

Beth bynnag eich amgylchiadau, rwy'n tybio y byddwch wedi cael y flwyddyn ddiwethaf yma'n heriol. A do, wrth gwrs y bu'r enydau golau hynny a'r 'ymylon arian'; ailasesu blaenoriaethau bywyd, mwy o amser gyda'r plant, cael ein gorfodi i arafu ac adlewyrchu ar yr hyn sydd o wir bwys. Ond does dim dianc o'r ffaith ein bod wedi bod drwy, a'n bod yn dal i fyw drwy drawma ar y cyd: pawb ohonom yn gwneud ein ffordd drwy storm Covid-19, er yn ein "gwahanol gychod". Ac mae plant yn wir wedi bod yn profi eu heriau, eu dryswch, eu hunigrwydd eu pryder a'u 'gweld eisiau' eu hunain, o'r babanod sydd wedi methu cyfleoedd am gymdeithasiad cynnar mewn grwpiau babanod, i blant sy'n gweld eisiau eu ffrindiau ysgol, i arddegwyr sy'n methu prif ddigwyddiadau bywyd (arholiadau, proms) ac annibyniaeth.

Yn fam i ddau o blant, 6 a 4 blwydd oed, rwy'n aml wedi adlewyrchu ar (a phryderu ynghylch) effaith y newidiadau a'r cyfyngiadau yr ydym wedi eu hwynebu dros y flwyddyn ddiwethaf ar fy merch a'm mab. Er fy mod yn teimlo'n lwcus fy mod wedi gallu cadw fy swydd a'm hincwm, ni fu gweithio o gartref heb ei heriau, fel y byddai sawl rhiant arall yn gwybod. Nid yn unig o ran y plentyn-hanner-porcyn yn ymddangos yn ystod enydau galwad fideo, ond rwy'n teimlo bod fy ngwaith i wedi dod yn rhywbeth llawer mwy amlwg iddyn nhw. Pan oedden nhw yn yr ysgol neu le gofal plant roedden nhw'n gwybod bod 'mam y'n gweithio' ond doedd hynny ddim yn beth mor 'o flaen eu llygaid' ag y mae wedi bod pan wyf i wedi bod yn eistedd i fyny'r grisiau a nhw yn y tŷ.

Dwi'n meddwl bod 'Euogrwydd Mam' yn derm a ddefnyddir yn gyffredin, a dwi ddim wedi ei ddefnyddio gymaint, na'i demlo'n union mor gryf, ag yr wyf wedi ei wneud yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Rwyf wedi cael y pryderon cyffredinol o ran addysg, yn enwedig ynghylch a fyddai rhieni eraill yn gwneud mwy/gwell addysgu gartref ac a fyddai fy mhlant yn dioddef o ganlyniad. Ond rwyf hefyd wedi poeni ynghylch cymaint y maent wedi gweld ei eisiau o ran chwarae: mynd i barciau, deniadau dan do, lleoedd newydd, ac yn bwysicaf oll treulio amser gyda'u ffrindiau y maen nhw wedi gweld eu heisiau'n arw.

Ers i'm merch gyrraedd 4 blwydd oed rwyf wedi bod yn defnyddio Clwb Gwyliau o'r enw Dexters sydd wedi ei gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), ac wedi ei leoli ar fferm fechan ym Mhencoed. Yn ogystal â bod yn un sy'n cael ei reoli'n rhagorol, yn unol â'r rheoliadau, mae lleoliad unigryw y Clwb a'r ethos plentyn-ganolog wedi golygu bod Dexters wedi darparu popeth y gallai fod eu heisiau ar riant (a phlentyn), a mwy.

Cyn Wythnos Hanner Tymor, e-bostiodd Perchennog y Clwb y rhieni gyda'r amlinelliad arferol, llawn hwyl o'u cynlluniau, ynghyd â sicrwydd a gwybodaeth am y mesurau rheoli haint yr oedd wedi eu rhoi yn eu lle. Yr oedd rhan fechan ohonof a oedd yn teimlo ychydig yn ofidus yn y bore wrth ollwng y plant, gan eu bod nhw ill dau yn dawel ac allan o'r arfer o fod allan o'r tŷ, ond doedd dim angen angen i mi boeni.

Rwy'n ceisio dod o hyd i'r geiriau i fynegi'n ddigonol y gwahaniaeth y cafodd mynychu'r Clwb ar fy mhlant … Ro'n i'n gwybod y bydden nhw'n cael amser da, fel bob tro, ond do'n i ddim wedi gwerthfawrogi'n llawn a mor ddiflas yr oedden nhw'n ei deimlo ynghylch bywyd o ddydd i ddydd yn ein tŷ ni, a chymaint yr oedden nhw wedi gweld eisiau gweld plant arall o'u hoed eu hunain, nes i mi weld y gwahaniaeth ynddyn nhw ill dau wrth eu casglu ar ddiwedd y dydd.

Cyrhaeddais i weld o'm blaen ddau blentyn llawn hoen, mwdlyd y tu hwnt, eu llygaid yn pefrio, eu bochau'n goch ac yn wên o glust i glust. Y peth cyntaf a gyhoeddodd fy mab 4 blwydd oed â balchder oedd "Mam, mi wnes i ffrind newydd!!!! A gwnaeth y ddau dreulio'r holl daith adref, ynghyd â'r rhan fwyaf o'r noson, yn chwerthin am lithro mewn pwll mwdlyd o ddŵr, yn siarad am wneud crempog ac yn esbonio rhai o reolau'r gemau yr oedden nhw wedi bod yn eu chwarae yn y cae. Roedden nhw fel petaen nhw wedi adfer eu hegni, eu cyffro a'u hangerdd dros chwarae, ac yn fy nhro teimlais i fy mod i'n mynd i ffrwydro gan hapusrwydd i'w gweld nhw ill dau mor llawn o lawenydd.

Rwy'n gweithio mewn cyfundrefn lle bydd pwysigrwydd a buddion Chwarae yn cael eu trafod yn rheolaidd, yn arbennig mewn perthynas â'r manteision a gynigir i blant mewn amgylcheddau o ansawdd mewn Clybiau Gofal Plant Allysgol megis Dexters. Ond dwi'n credu mai ar y foment hon yn ystod Hanner Tymor mis Chwefror y teimlais hyn gryfaf erioed, a'i brofi'n uniongyrchol, mor agos at adref. Ydy, mae addysg yn bwysig. Ac ydw, rwy'n falch iawn bod yr ysgolion wedi agor eto. Ond dyw'r flwyddyn hon ddim wedi bod ynghylch colli addysg mewn ysgol yn unig; mae plant wedi methu oriau di-ri o chwarae sy'n mynd â'u holl fryd, sy'n gymdeithasol, yn archwiliol, dan arweiniad plant a chwbl wefreiddiol. Mae clybiau sy'n cael eu rhedeg gan Weithwyr Chwarae cymwysedig sy'n gwir ddeall chwarae, a'r Egwyddorion Gwaith Chwarae, rhai sy'n rhoi i'r plant y profiadau chwarae hynny o ansawdd y mae arnyn nhw gymaint o'u hangen, lle maen nhw'n dysgu am y byd, yn gweithio'u ffordd yn feddyliol drwy bethau ac yn adlewyrchu, yn cymryd risgiau, dysgu i reoli gwrthdaro, gwneud ffrindiau ac yn ymarfer nifer di-ri o sgiliau eraill.

Ydy, y mae gofal plant yn caniatáu i mi yr oriau y mae eu hangen arnaf i wneud fy ngwaith heb i'r euogrwydd mam yna fy mlino, pan fyddai'n gwybod fod fy mhlant wedi diflasu neu'n cweryla neu'n cael gormod o amser gwylio'r sgrin; ac fel y gallaf ganolbwyntio yn fwy arnyn nhw pan nad ydw i'n gweithio. Ond mae gwybod (a gweld) yn union faint y mae mhlant yn ei gael o fod yno yn werth llawer mwy na'r anghenion y mae'n eu bodloni i mi fel mam sy'n gweithio. Gwnaeth Dexters gymaint o wahaniaeth cadarnhaol i iechyd meddyliol a llesiant fy mhlant y Chwefror hwn, ac maen nhw'n cyfrif i lawr yn barod i'r adeg y gallan nhw fynd eto!

# Buddion Chwarae yn yr Awyr Agored

Mae gen i lawer o atgofion hapus of fod yn blentyn yn chwarae y tu allan; roedd fy mrawd a minnau'n ddigon lwcus i fod yn byw ar ffordd bengaead, ac yn y dyddiau hynny roedd pobl â cheir yn eu parcio ar eu dreif, felly roedd modd i'r plant ar y ffordd honno chwarae ar y ffordd. Roedd tipyn ohonom ni o oed tebyg yn byw yn ein ffordd bengaead ni; roeddem ni'n mwynhau sgipio, rhedeg ar ôl ein gilydd, chwarae tag, hopscotch, criced, pêl-droed a mynd ar gefn ein beics. Roedd gennym hefyd erddi, a byddi'r ffermwyr lleol yn gadael i ni chwarae yn y cae, a choed gerllaw iddo. Am hwyl! Byddem yn chwarae gymnasteg, cwato-a-chwrso, rownderi, sua ar siglen raff, cydbwyso ar fonion coed, casglu concyrs, dringo coed …; do, fe wnaethom ni gymryd risgiau, a wnaeth wrth gwrs gynyddu ein hyder.

Rwy'n ymwybodol iawn o'r ffaith bod llawer o blant nad ydynt yn awr â'r cyfleoedd a oedd gennym ni pan oeddem ni'n ifanc, yn chwarae ar y lôn bengaead neu yn y coed a'r caeau; eto y mae'n dal yn bwysig iawn sicrhau bod plant yn cael digonedd o amser i chwarae yn yr awyr iach a chreu atgofion melys; hynny'n fwy fyth yr haf hwn, yn dilyn y flwyddyn anodd yr ydym wedi'i chael gyda phandemig Covis-19. Mae'r buddiannau a ddaw i blant o chwarae y tu allan yn enfawr, dyma rai yn unig ohonynt:

• Mae'n gwella sgiliau datrys problemau e.e., drwy estyn fy mraich a chodi 'nghoes efallai y galla i ddringo ychydig yn uwch, ydy'ch rhaff yna'n ddigon trwchus i suo arni?
• Mae'n meithrin eu creadigrwydd e.e. Roeddwn i'n arfer gwneud celfi bychain â choncyrs, eu glynu wrth ei gilydd i wneud bwrdd bach, gwneud rhwbiadau dail i weld pa batrwm y gallem ei wneud;
• Datblygu sgiliau motor e.e. sgiliau motor bras - byddem yn neidio, cydbwyso, sgipio, rhedeg, mynd ar gefn fy meic a sawl peth arall; a sgiliau motor manwl - e.e. pan fyddwn i'n casglu concyrs, codi dail, tynnu amlinelliad ein hopscotch.
• Maent yn tyfu mewn hyder e.e. wrth chwarae gyda'm ffrindiau byddwn yn dysgu rhannu, bod yn rhan o dîm, cymryd ein tro wrth chwarae criced, gymnasteg, cwato-a-chwrso;
• Hapusrwydd e.e. byddem yn chwerthin, sgipio, sgwrsio, gwneud sŵn, ac yn bennaf oll, yn mwynhau ein hunain.

Wrth ysgrifennu hyn, dwi'n gwenu wrth gofio'r holl adegau ardderchog a gawsom yn chwarae y tu allan. Hyd yn oed yna ŵr dwi wrth fy modd yn yr awyr agored, yn cerdded, garddio, cymryd ein hwyres i'r parc. Rydym yn bwy ac yn gweithio mewn lle llawn prydferthwch yng Nghymru; dydy hi ddim yn bell o'r arfordir nac i ymweld â pharc. Os nad oes gennych lawr o le y tu allan, defnyddiwch yr hyn sydd gennych a gwnewch y gorau o fod y tu allan, yn paentio, tynnu lluniau, ymestyn, neidio, bod yn greadigol, ond yn fwyaf oll mwynhewch hyn, gwnewch atgofion a mynnwch gael hwyl.

# Y Cwricwlwm Gwaith Chwarae

Tân – Storïau tân gwersyll, barbeciws, defnyddio enamel, coginio, odyn, gwneud canhwyllau, pwll tân, llosgi sbwriel …
Dŵr - Llithren Bolythen, brwydrau, hos, llenwi biniau/pwll, dyfrio planhigion/llysiau, bomiau dŵr, nofio, cychod hwylio, lliwio defnyddiau, gwneud a dargyfeirio ffrydiau dŵr, pyllau a rhaeadrau, gwibdeithiau i afonydd / y traeth, defnyddio pibau/gwteri a.y.b. i greu dyfrffyrdd …
Aer - Sanau gwynt, awyrennau papur, barcudiaid, balwnau, hofrennydd/hadau dant-y-llew, ffrisbis, baneri, melinau gwynt, gwifren wib, ceiliog y gwynt, clychau gwynt, pwmpio teiars/peli, neidio oddi ar fannau uchel, peli pridd ….
Pridd - Clai, garddio, plannu mewn potiau, tyfu llysiau a phlanhigion, palu tyllau, pwll tywod, peis mwd, brwydrau mwd, chwilio am fygs, fferm forgrug, gwneud twneli …
Hunaniaeth - Paentio wynebau, colur, steilio gwallt, gwisgo i fyny, gwneud gwisgoedd, mygydau, cymryd ffotograffau, gwneud fideo/ffilm, nodi gwyliau diwylliannol, chwarae rôl, drychau, gludweithiau, paentiau lliw-croen, pastelau
Cysyniadau - Sgyrsiau am ryfel, genedigaeth, marwolaeth, democratiaeth, cyfiawnder, heddwch, troseddu, cosb, diwylliant, amser, y gofod, priodas a chrefydd; chwarae creadigol neu chwarae rôl ynghylch unrhyw un o'r rhain drwy ddefnyddio rhannau rhydd/props a.y.b., anifeiliaid - byw a marw …
Y Synhwyrau - Cerddoriaeth - pob math; mwgwd llygaid/gemau ymddiried; perlysiau, sbeisys, blodau; golygfeydd, synau a siapiau diddorol ac esthetig; persawr ac aroglau eraill; gwneud lliwiau, gwneud clytweithiau; blasu bwyd, coginio …. amrywiaethau o wneuthuriad a lliwiau naturiol; gwahanol fathau o oleuo, tywyllwch…
Tirwedd Amrywiol - Adeiladweithiau ac adeiladu adeiladweithiau, gwahanol uchderau/lefelau, bryniau, twmpathau, coed, platfformau, pontydd, pyllau gwag, siglenni, gardd, rhedfa aer, ffosydd, twneli, mannau tawelach, llefydd i eistedd, cuddio … mannau agored a naturiol …
Defnyddiau - Cyfarpar chwaraeon, odyn, teledu, cyfrifiaduron, ffwrn, barbeciw, fideos, consolau gem, potiau, padellau, offer llaw, teganau meddal, parasiwt, teganau chwyth, props o bob math …
Adeiladu - Gwneud den, chwarae mewn tywod, adeiladu strwythur, gwersylloedd, gwneud ffens, dylunio mannau, gwneud modelau, datod cyfarpar trydan/beiciau/cert cyflym/adeiladu trolïau, adeiladu lorïau arddangos i garnifal ….
Newid – Dylunio ardaloedd, strwythurau, ailaddurno, murluniau, celf pafin, palu pyllau dŵr, ailgyfeirio ffrydiau, palu twneli …
Ffocysau – Diwrnodau thema/timau, barbeciw, tân gwersyll, teganau chwyth, digwyddiadau arbennig, yn cynnwys diwrnodau agored, arbenigwyr yn ymweld (celfyddydau, dawns, sgiliau syrcas …); adnoddau newydd ac anarferol (e.e. goleuadau lliw, paent goleuol, beics un-olwyn, didgeridoo
Dewisiadau - Bocs/bwrdd awgrymiadau, ymgynghoriadau … rhychwant eang o opsiynau posibl a rhyddid mynediad i bawb …
Dewisiadau amgen - Tripiau oddi ar y safle, tripiau preswyl, dosbarthiadau dawns, cysgu drosodd, cysgu allan, gweithgareddau awyr-agored …
Offer llaw - Morthwylion, sgriwyrwyr, llifiau, hoelion/sgriwiau, driliau, cynion, cyllyll crefft, torwyr, styffylau, ffyrc/rhawiau, gefeiliau, ho/rhaca, sieflau, trosol, bwyell, brwshys, nodwyddau, nytiau/bolltau, clipiau/pegiau, gograu, mesurau, rhaw gasglu, sammers, screwdrivers, saws, nails/screws, driliau, cynion, cyllyll crefft, styffylau, ffyrc/rhawiau, gefeiliau, ho/rhaca, sieflau, trosol, bwyell, brwshys, nodwyddau, nyts/bolltau, clipiau/pegiau, gograu, mesurau, lefel wirod
Rhannau rhydd - Teiars, pren, rhaffau, tybiau, barilau, cynfasau, blancedi, briciau, briciau aer, paledau, bocsys, dysglau, olwynion, troliau, matiau, cewyll, clustogau, ysgolion, polion, ffyn, tâp, pegiau …
Risg – Gwifren wib, siglen raff, tân, offer miniog, adeiladweithiau uchel … dringo, cydbwyso, beicio, reslo, neidio …
Nodyn: Drwy chwarae mae plant yn dysgu am risg. Mae hon yn elfen hanfodol o hyder a meithrin gallu, sy'n angenrheidiol i ddatblygiad personol, hyblygrwydd a goroesedd. Ar hyd






eu bywydau, bydd plant yn dod wyneb yn wyneb â sefyllfaoedd o berygl posibl, ac yn ystod eu chware y bydd y plant hyn wedi dewis cyfwynebu risg, dysgu i'w asesu a datblygu sgiliau i'w reoli. Dry geisio a methu, maen nhw'n darganfod eu terfynau ac yn sylweddoli eu potensial o ran ymgymryd â her. Mae plant yn holgar ac yn chwilfrydig, ac â'r ysfa gynhenid a chymhellgar i ymchwilio i'r hyn nad ydynt yn ei wybod, i arbrofi a rhoi prawf arnyn nhw eu hunain. Mae PROFIADAU UNIONGYRCHOL YN HANFODOL i ddatblygiad sgiliau asesu-risg plant.

Mae dau gyfle chwarae hanfodol yn dy lai plant fod yn eu profi, sef Chwarae Tân ac Adeiladu Den …
Chwarae Tân – Dylai plant gael y profiad o brofi 'Chwarae Tân'. Nid taflu cyneuwyr tân o gwmpas y lle sydd gennym mewn golwg yma, na chwifio ffyn â fflamau, er y bydd rhai plant yn arbrofi yn y ffordd yma! Ond dylem fod yn cyflwyno tân i mewn i'w chwarae. Mae'n hanfodol fod plant yn cael profiadau uniongyrchol o dân, i'w galluogi i ddeall y peryglon a sut i gadw'u hunain yn ddiogel. Bydd Gweithwyr Chwarae'n dangos iddyn nhw sut i fod yn ddiogel o gwmpas tân, a sut i'w gadw yn ei le, fel y gallant ennill y sgiliau a'r hyder i asesu'r risg yn effeithiol drostynt eu hunain.
Dechrau'n fach: Dysgu tanio matsien a'i ddiffodd yn ddiogel / Goleuo Canhwyllau / Bwcedi Tân / Coginio Golau Te ar Ddysglau Alwminiwm / Pyllau Tân a Choginio Pwll-Tân …
Syniadau: ysgrifennu dymuniadau/negeseuon ar bapur neu ffyn i'w llosgi yn y tân. Llunio cân a/neu ddawns dân, chyfeilio rhythmig. Defnyddio lludw tân, pridd a d6wr i wneud paentiau wyneb seremonïol. Tynnu lluniau â siarcol o'r tân oer…..

Adeiladu Den - Mae plant wrth eu boddau'n adeiladu deniau; mae'r profiad yn eu cyffroi ac yn bwydo eu dychymyg a'u creadigrwydd. Mae'r broses ei hun o adeiladu deniau yn hybu eu rhesymu, eu sgiliau datrys problemau, eu sgiliau llythrennedd a rhifedd a negodi â'r amgylchedd a.y.b.
Mae plant yn chwilota ac yn profi gwahanol sefyllfaoedd, megis tywyllwch, sut deimlad yw bod mewn mannau caeedig a phob math o deimladau ac emosiynau.
Byddant yn adeiladu deniau ar eu pennau eu hunain i brofi ynysedd, a chyda phlant eraill - y mae'n gyfle rhagorol am chwarae cymdeithasol gan y bydd y plant yn defnyddio eu sgiliau unigo ac yn ymarfer gweithio fel tîm; byddant yn negodi ac yn datrys problemau, gwneud penderfyniadau a datblygu eu sgiliau ymarferol a chorfforol.
Ymhlith buddion chwarae y tu allan ym mhob tywydd y mae'r haul – a fydd yn gwneud yn siŵr fod plant yn cael digon o fitamin D a'r sawl budd y mae'n ei roi, yn cynnwys tyfiant yr esgyrn, swyddogaeth esgyrn, tyfiant a stamina; mae'r haul hefyd yn helpu plant i ganolbwyntio, a gall gyfrannu at wella'r synapsau yn yr ymennydd.

Y profiad synhwyraidd o wrando ac ymgysylltu mewn gwahanol fathau dywydd, megis tywydd gwyntog, glaw ac eira. Gwybod mwy am y tymhorau a'r newidiadau sy'n digwydd yn yr amgylchedd, megis dail crensiog yn cwympo o'r coed; a hefyd, planhigion - arogli blodau, codi dail, dringo coed a.y.b. / Anifeiliaid - rhoi mwythau, cyffwrdd, dal a.y.b. / Pridd - palu, gwneud mwd, adeiladu a.y.b. / Dŵr - sblasio, arllwys, arnofio a.y.b. / Aer - anadlu, rhedeg yn erbyn y gwynt, taflu a.y.b. / Tân - goleuo, procio tanau, coginio a.y.b.

Dyma rai eraill o Fuddion Chwarae y Tu Allan…

- Cryfhau systemau imiwnedd plant
- Lleihau'r risg o olwg-agos
- Balans, cydlyniad ac ystwythder
- Lefelau actifedd uwch, a mwy o ryddid i redeg, neidio a dringo
- Cyfleoedd am ddysgu ymarferol am rymoedd a chysyniadau materol
- Lefelau is o straen, hwyliau gwell, a gwelliant yn eu gallu i ganolbwyntio
- Dysgu i reoli'r risgiau newydd sy'n dod gyda gwahanol fathau o dywydd megis yfed llawer o ddŵr, ac eli haul pan fydd hi'n boeth, neu fod yn ofalus o rew pan fydd hi'n oer a.y.b.
- Gwell patrymau cysgu
- Gwell cyfleoedd i ddysgu sgiliau cymdeithasol, goresgyn ofnau, a datblygu cysylltiad â natur
- Mae'r buddion i blant o chwarae y tu allan yn aneirif, bydd y plant yn datblygu llawer o sgiliau bywyd a fydd yn eu gweld nhw'n tyfu'n oedolion yn ddiogel.

Ystyriwch yn ogystal: Mae pandemig Covid wedi taro ein plant yn galed dros y flwyddyn a thipyn diwethaf, felly maen nhw wedi gorfod aberthu llawer a cholli cannoedd o oriau o amser y byddent yn dewis yn rhydd i chwarae. Bydd y mwyafrif o blant yn awr yn wynebu ystod o broblemau personol, yn cynnwys iechyd meddyliol gwael, gordewdra, hunan-dyb isel, sgiliau cymdeithasol gwael a'r ofn o rywun y maen nhw'n eu nabod yn dal Covid - i enwi ychydig yn unig! Felly, yn awr yn fwy nag erioed, mae'n hanfodol ein bod yn eu cael i chwarae y tu allan a bod yn barod i ddarparu cyfleoedd chwarae a fydd yn eu cefnogi'n effeithiol i ddod i delerau â'u colled parthed chwarae a'r gwahaniaethau a ddaeth yn sgil Covid.
https://www.parentingscience.com/benefits-of-outdoor-play.html

https://www.parentingscience.com/benefits-of-outdoor-play.html

# Risg mewn Chwarae

Mae'n destun clod mai Cymru yw'r wlad gyntaf yn y byd sydd wedi ymrwymo i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, yr UNCRC, ac wedi deddfu ar chwarae yn rhan o'r gyfraith. Er hynny pery heriau yng Nghymru, a thra bod 97% o'r holl rieni yng Nghymru'n credu ei bod yn bwysig i'w plentyn chwarae allan bob dydd, 'nid yw bron traean o blant o dan bum mlwydd oed (29 y cant) yn cael yr amser yn yr awyr agored sydd ei angen arnynt' (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2017). Gan gyd-fynd â gweithiau ymchwil eraill ar amgylcheddau trawsweithredol plentyndod, ffocysir ar yr amgylchedd materol - yn hytrach na ddim ond y profiad cymdeithasol - o ran y ffenomenon yma, yn un â rôl mewn llywio penderfyniadau( Kyttä, 2003). 'Er bod plant yn naturiol yn ceisio ymgysylltu â chwarae sy'n cynnwys risg, mae nodweddion yr amgylchedd chwarae'n dylanwadu ar chwarae plant drwy ganiatáu mathau arbennig o weithgareddau chwarae' (Sandseter, 2009, pg2).

Mae'r cydbwysedd rhwng risgiau a manteision yn chwarae plant sy'n cynnwys risg wedi bod yn achos dadleuon dros y ddau ddegawd diwethaf, ac mae pryder cynyddol ynghylch y cwtogi ar y cyfleoedd sydd gan blant i brofi chwarae awyr-agored, heriol wedi ymddangos (Clements, 2004; Gill, 2007; Hughes, 1990; Jambor, 1998; Lester, 2007, ac yn cael ei ddyfynnu gan Sandseter yn 2009, pg2)

Gellir diffinio chwarae fel ymddygiad sy'n 'cael ei ddewis yn rhydd, ei hunan-gyfarwyddo a'i gymell yn gynhenid, h.y. yn digwydd heb fod â golwg ar amcan neu wobr allanol' (Play Education, 1982, yn cael ei ddyfynnu gan Chwarae Cymru, dim dyddiad, tud 3). Mae chwarae sy'n cynnwys risg yn ehangu ymhellach y rhethreg yma a 'gellir yn gyffredinol ei ddiffinio fel ffurfiau gwefreiddiol a chyffrous ar chwarae sy'n cynnwys y risg o anaf corfforol'. (Sandseter, 2007, yn cael ei ddyfynnu gan Sandseter, 2009). Yn hollbwysig, mae chwarae sy'n cynnwys risg yn rhoi i blant gyfle i brofi eu terfynau eu hunain, yn gorfforol, yn gymdeithasol ac yn ddeallusol (Little & Wyver, 2008). Ond 'mae'r term "risg" yn aml yn cyfleu arwyddocâd negyddol, ac mae diffiniadau o risg yn aml yn mabwysiadu safbwynt cul iawn', (Little and Eager, 2010, pg499). Eto, hyrwyddir risg gan lawer yn rhywbeth sy'n sylfaenol bwysig i ddatblygiad gwybyddol a rhyngbersonol llwyddiannus:

Mae plant yn mynd ati i chwilio am gyfleoedd i roi prawf arnyn nhw eu hunain a datblygu eu galluoedd: maen nhw'n eiddgar i gael gafael yr y byd o'u cwmpas, felly, yn ddi-os, fe fyddant yn dod ar draws rhywfaint o risg o niwed, mewn unrhyw amgylchedd. (Ball, Gill, Spiegal 2008, tud10)

Yng nghasgliadau allweddol holiaduron ar Ddigonolrwydd Chwarae mewn un Awdurdod Lleol yng Nghymru gwelwyd bod y mwyafrif o blant yn chwarae gartref, ar gaeau chwarae lleol, yn yr ardal chwarae sefydlog, neu ar y strydoedd. Dywedodd 19% o blant a phobl ifanc fod chwarae wedi ei wahardd neu ei gyfyngu h.y. dim gemau pêl na hedfan barcutiaid, ac adroddodd 59% mai'r prif bethau a oedd yn rhwystro plant rhag chwarae oedd heolydd prysur' (Cyngor Sir Gaerfyrddin, 2016, tud8).

Mae hwn yn un o sawl rheswm, ac mae'r sector Gofal Plant Allysgol yn holl bwysig yn hyrwyddo a galluogi chwarae na fyddai fel arall yn gallu digwydd o gwbl. Mae llenyddiaeth academaidd yn hyrwyddo'r angen am gyfleoedd am risg mewn chwarae i bob plentyn, ac er bod hyn yn raddau helaeth yn cael ei groesawu ar y sector awyr-agored, gall weithiau fod yn fwy o her i leoliadau caeedig.

Hoffem wybod pa rwystrau, os o gwbl, sy'n wynebu ein lleoliadau pan fyddant yn ystyried hyrwyddo dull Risg v Budd o reoli risg yn eich lleoliadau. A yw hyrwyddo risg yn rhywbeth y mae eich clwb yn ei groesawu neu'n ei chael yn heriol? Cofiwch roi gwybod i ni drwy eich Swyddog Datblygu Busnesau Gofal Plant lleol!

**Deunydd darllen pellach mewn perthynas â'r Tu Allan / Risg mewn Chwarae / Mannau Chwarae Amgen -**


Ball, D., Gill, T., and Spiegal, B., (2008) Managing risk in Play provision: Implementation guide Available via http://www.playwales.org.uk/login/uploaded/documents/Play%20and%20Challenge/Managing%20Risk%20in%20Play%20Provision.pdf

Boronski, T. & Hassan, N. (2015) Sociology of Education, Sage: London.

Bradshaw, J. The well being of children in the uk,

Cabe Space, (no date) Decent park? Decent behaviour? Available via https://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20110118142349/http://www.cabe.org.uk/files/decent-parks-decent-behaviour.pdf

CYCPS, (No date) Article 31 https://www.cypcs.org.uk/rights/uncrcarticles/article-31

Davis, (2016) A Study of Best Practices in Youth Engagement and Leadership Development. Available via http://www.endowmentforhealth.org/uploads/resources/id115/Youth_engagement_best_practices.pdf

Gray, P. (2011) The Decline of Play and the Rise of Psychopathology in Children and Adolescents. American Journal of Play, 3(4), 443-463. Available via https://www.psychologytoday.com/files/attachments/1195/ajp-decline-play-published.pdf

Health, Social Care and Sport committee, 2018, Active Healthy Kids – Wales 2018 Report. Available via http://democracy.swansea.gov.uk/documents/s29150/18%20-%20Disposal%20of%20Land%20on%20School%20Sites.pdf

Institute of Education, (2018) Risky behaviours: Prevalence in adolescence. Available via https://cls.ucl.ac.uk/wp-content/uploads/2018/01/CLS-Briefing-2017-Risky-behaviours-in-adolescence.pdf

Jenkinson, H., (2011) Youth workers' experience of challenging behaviour: lessons for practice. Emotional and Behavioural Difficulties, 16(1) pp35–46

King, P., Sills-Jones, P., (2018). Children's use of public spaces and the role of the adult -- A comparison of play ranging in the UK and the Leikkipuisto (Play Parks) in Finland. International Journal of Play

Kyttä, M., (2003) Children in Outdoor Contexts. Affordances and Independent mobility in the assessment of Environmental Child Friendliness. Available via http://lib.tkk.fi/Diss/2003/isbn9512268736/isbn9512268736.pdf

Little, H., and Eager, D., (2010) Risk, challenge and safety: implications for play quality and playground design. European Early Childhood Education Research Journal, 18: 4, 497 — 513

Little, H. & Wyver, S., (2008) Outdoor play: Does avoiding the risks reduce the benefits? Australian Journal of Early Childhood, 33, 33–40.

Mahoney, J. L., and Stattin, H., (2000): Leisure activities and adolescent antisocial behaviour: The role of structure and social context. Journal of Adolescence, 23, 113-127. Available via file:///C:/Users/joeln/Downloads/Artikelfritid2%20(1).pdf

Plas Madoc Play, (no date) The land. Available via https://twitter.com/PlasMadocPlay

Play England, (2008) Making space for play. Available via http://www.teachernet.gov.uk/publications

Play England, (2016) Why temporary street closures for play make sense for public health. Available via http://www.playengland.org.uk/wp-content/uploads/2017/07/StreetPlayReport1web-4.pdf

Play Wales, (no date) Rationale for a National play policy for Wales. Available via http://www.playwales.org.uk/login/uploaded/documents/Play%20Policy/Play%20Policy%20Rationale.pdf

Play Wales, (2019) Rich Play Environment. Available via http://www.playwales.org.uk/eng/richplayenvironment

Play Wales, (2019) Streets projects. Available via http://www.playwales.org.uk/eng/streetsprojects

Public Health Wales, (2017) Nearly a third of under-fives aren't getting enough outdoor play. Available via http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/news/45907

Public health Wales, (2019) Driving Prosperity for All through Investing for Health and Well-being. An Evidence Informed Guide for Cross-sector Investment http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/888/PHW-Prosperity-for-all-report-%28Eng-web%29.pdf

Richards, M., (2013) 'Junk' playground The Land, Wrexham inspires US guests. Available via https://www.bbc.co.uk/news/av/uk-wales-24751534/junk-playground-the-land-wrexham-inspires-us-guests

Rohrs, H., (1997) Thinkers on Education V3. Unesco Publishing / Oxford & IBH publishing

Sandseter, E. B. H. (2009). Affordances for risky play in preschool - the importance of features in the play environment. Early Childhood Education Journal, 36, 439 - 446(PDF) Available via https://www.researchgate.net/publication/226035537_Affordances_for_Risky_Play_in_Preschool_The_Importance_of_Features_in_the_Play_Environment

Sandseter, E. B. H., (2009) Characteristics of risky play. Journal of Adventure Education and Outdoor Learning, 9(1), 3-21. Available via file:///C:/Users/joeln/Downloads/AcceptedversionCharacteristicsofriskyplay.pdf

UNICEF Office of Research (2016). 'Fairness for Children: A league table of inequality in child well-being in rich countries', Innocenti Report Card 13, UNICEF Office of Research – Innocenti, Florence. Available via https://downloads.unicef.org.uk/wp-content/uploads/2016/04/RC13-ENG-FINAL.pdf?_ga=2.203106833.1245080416.1549494749-2082162206.1549494749

Welsh Government, (2012) Creating a play friendly Wales. Statutory guidance to local Authorities on assessing for sufficient opportunities for children in their areas. Available via http://www.assembly.wales/Laid%20Documents/GEN-LD9061%20-%20Creating%20a%20Play%20Friendly%20Wales%20-%20Statutory%20Guidance%20to%20Local%20Authorities%20on%20assessing%20for%20sufficie-11102012-239348/gen-ld9061-e-English.pdf

Welsh Government, (2014) Wales – A Play friendly country. Statutory guidance. Available via https://gweddill.gov.wales/docs/dsjlg/publications/cyp/141007-wales-a-play-friendly-country-en.pdf

Welsh Government, (2018) National Survey for Wales 2017-18 Play. Available via https://gov.wales/docs/statistics/2018/181016-national-survey-wales-2017-18-play-en.pdf




# Diolch, fy arch-arwyr

"Does 'na ddim llawlyfr i gyd-fynd â dod yn rhiant"; dyma rywbeth y byddwch yn ei glywed bob tro pan fyddwch yn cael plant. Byddwch yn darllen yr holl lenyddiaeth, yr awgrymiadau ardderchog a'r holl gyngor a roddir ichi gan rieni mwy profiadol, ond mae b od yn rhiant yn anodd, ac ni all hyd yn oed y rhai ohonom sydd â'r holl brofiad o fod yn Weithiwr Chwarae fod yn ddigon parod am y cyfrifoldeb o fagu'r bodau mwyaf gwerthfawr yn y byd i ni. Yna daeth pandemig, a doedd yna ddim byd o gwbl i'n paratoi ar gyfer hynny. Fel rhiant i blant 14, 7 a 4, fe brofais i, fel y mwyafrif o rieni eraill, y "rhiant yn ennill" a'r "rhiant yn colli" ond mae'r 12 mis diwethaf wedi bod yn llawn uchelderau ac iselderau cyfnewidiol o emosiynau, ac er i mi fod yn hynod falch ohonynt gynt, eleni mae'r balchder hwnnw gymaint yn fwy na'r hyn a oedd gynt.

Pan aethom yn gyntaf i mewn i'r cyfnod meddyliais yn ddiniwed, iawn, mae hyn wedi dod, fe wnawn ni chwarae, mi fyddwn ni'n iawn gyda 'mhrofiad o Waith Chwarae, ac fel yna yr oedd hi am yr ychydig fisoedd cyntaf. Fe wnaethom adeiladu deniâu, mynd ar droeon natur, fe wnaethom bobi, dawnsio a chwerthin. Yna dechreuodd fy mhlentyn 7-malodd ddechrau fynd yn rhwystredig a blin, a daeth ei ymddygiad yn heriol iawn. Roeddwn i'n amyneddgar, roeddwn i'n ddigynnwrf, fe wnes drio, fe wnes grio. Mi wnes innau hefyd ddod yn rhwystredig ar adegau ac ni wneud ymdopi â hyn yn y ffordd orau. Tyfodd fy euogrwydd fel mam yn waeth nag erioed oherwydd pan oeddwn i'n bod yn Swyddog Datblygu Busnesau Gofal Plant ac yn cynghori Lleoliadau ar sut i ddarparu chwarae o few cyfyngiadau newydd i gefnogi'r plant a oedd yn mynychu, roedd fy mhlant i'n ei chael hi'n anodd. Roedd, ac mae, Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs fe cyflogwr yn hynod barod i ateb fy anghenion a gadawsant i mi gymryd amser o'r gwaith pan oedd ei angen i gefnogi fy mhlant yn ogystal â'm llesiant fy hun, a chefais weithio fy oriau mewn modd hyblyg o gwmpas toriadau ychwanegol.

Ar un o'r diwrnodau anodd dwedais wrtho "Dwi'n gwbod dy fod ti'n cael hyn yn anodd; mae gan mami amser i ffwrdd, beth am feddwl am bethau hwyl y gallwn ni wneud", a chyda'r holl gynddaredd a allai ei fynegi, fe waeddodd arna i "Dwi jyst ishe chware gyda fy ffrindiau." Mi deimlais i mor doredig ag ef y foment honno, a hynny i raddau gan fy mod i'n gweld eisiau fy ffrindiau hefyd; ond hefyd oherwydd nad oedd o bwys pa weithgareddau hwyl a sbri y byddwn i'n meddwl amdanyn nhw, roedd yr un peth yr oedd e wedi'i gymell o'r ti mewn i'w wneud ddim ar gael iddo. Roedd ei hawl i chwarae wedi mynd, ac fel ei fam nid oeddwn i'n gallu gwneud iawn am y cyfan yna.

Rydym ni'n lwcus i fod yn byw yn yr un stryd â'i ffrindiau ysgol, felly wedi siarad â'r mamau eraill fe wnaethom benderfynu haneru'r maes parcio â marc o sialc. Fe wnaethom awyrennau papur a sefydlu goliau pêl-droed iddynt fel y gallent chwarae ciciau cosb, ac fe wnaethom ddod â'r sgwteri allan i rasio; popeth y gallem feddwl amdanynt i gydymffurfio ag ymbellhau cymdeithasol. Wnaethon nhw ddim o hynny. Fe wnaethom eistedd naill ochr i'r llinell a chwarae ochr yn ochr â'i gilydd; chwarae yn unigol yn agos at ei gilydd. Cododd eu hwyliau. Iddyn nhw, doedd dim angen pentyrrau o deganau na gweithgareddau wedi eu trefnu; dim ond bod ym mhresenoldeb ei gilydd.

Wrth i'r pandemig barhau, felly hefyd yr uchelderau a'r iselderau, ond dysgais i adael i'm plant arwain y ffordd. Os oedd dysgu o bell yn ormod iddynt, cawsant yr opsiwn i stopio. Os oeddent am amser sgrin, gallent ei gael. A wnaethant ddioddef yn academaidd? Dwi ddim yn credu hynny; symudodd y tri yn eu blaenau. A fyddai'n ddigon da ar gyfer profion safonol? Yn fwy na thebyg, na fyddai ym mhob maes, ond maent wedi byw drwy pandemig, felly mae unrhyw gynnydd yn rhywbeth a enillwyd, ac mae teimlo, diogelwch a'u bod yn cael gwrandawiad yn gwneud yr holl wahaniaeth.

Mae fy mhlant i, fel yn achos yr holl blant drwy'r wlad gyfan, wedi methu cymaint, ac wrth wneud hynny wedi profi'r hyn yr ydym oll yn ei wybod, fod plant yn wydn. Ond nid yw'r ffaith y gall plant fod yn wydn yn golygu na ddylent gael eu cydnabod a'u dathlu am hyn. Rwyf i am ddiolch i bob plentyn am yr hyn y maen nhw wedi ei oddef mor wych drwy hyn i gyd, ond hoffwn yn arbennig ddiolch i'm plant i – Ciara, Dougie a Ben. Ry'ch chi wedi bod yn rhyfeddol a dwi mor anhygoel o falch ohonoch chi bob dydd. Dwi'n eich caru rownd y byd ac eto'n ôl.



# Diolch, Weithwyr Chwarae!

Drwy gydol Covid-19, mae Gweithwyr Chwarae ac Ymarferwyr Gofal Plant wedi bod yn gwneud gwaith anhygoel o gefnogi plant a'u teuluoedd ar hyd a lled Cymru; yn cynnig gofal plant i blant gweithwyr allweddol a phlant hyglwyf yn ystod cyfnodau clo, cadw mewn cysylltiad â phlant drwy ddulliau arloesol er mwyn atgyfnerthu eu hiechyd a'u llesiant a'u cysylltedd; newid yn ôl ac ymlaen i agor ac aros ar agor lle bo'n bosibl, rhoi amryfal bolisïau a gweithdrefnau ar waith er mwyn glynu at yr arweiniad ac i gadw plant yn ddiogel; cefnogi rhieni/gofalwyr i ddychwelyd i'w gwaith neu, mewn rhai achosion, wynebu cyfnodau estynedig o incwm isel/dim incwm oherwydd anallu i ailagor, negodi â landlordiaid a gweithio'n galed yn y cefndir i geisio sicrhau y bydd ailagor yn bosibl yn ddiweddarach er mwyn dal i gefnogi cymunedau.

Mae'n bosibl bod straen y Pandemig wedi ei ddwysáu gan bryderon dros allu ailagor gwasanaethau, neu allu i ailagor â'r un lefelau staffio, ac mae'n bosibl y bydd pryder parhaus ynghylch hyn am beth amser. Mae cadw staff cymwysedig, lle y mae'n gynaliadwy i wneud hynny, yn debygol o fod yn flaenoriaeth i bob Rheolwr, yn ogystal â cheisio sicrhau bod eich staff yn teimlo eu bod yn cael eu cydnabod a'u mawrbrisio, ond mae'n debygol y bydd terfynau ariannol ar y cymhellion y gallwch eu cynnig fel cyflogwr i atgyfnerthu bodlonrwydd mewn swydd a chadw staff.

Mae sawl ffordd y gallwch chi fel cyflogwr eu dewis i ddiolch i staff am eu hymroddiad a'u gwaith caled:

1. Cynlluniau Gwobrwyo Cyflogeion - er efallai na fyddech yn gallu fforddio taliadau bonws neu godiadau cyflog, a ydych wedi edrych i mewn i gynlluniau gwobrwyo gweithwyr fel ffordd o ddiolch i'r staff a chydnabod eu gwaith caled (e.e. Perkbox?). Os ydych yn yswirio drwy Morton Michel, gall staff a'u teuluoedd gyrchu porth gostyngiadau sy'n cynnwys dros 600 o ostyngiadau a chynigion (e.e. dillad, sinema, bwyta allan). Mae'n bosibl bod manteision eraill tebyg ar gynnig drwy yswirwyr eraill, rhai y byddai'n werth edrych yn ddyfnach iddynt i wneud yn siŵr eich bod yn gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd sydd ar gael.
2. Mynediad at hyfforddiant tuag at eu Datblygu Proffesiynol Parhaus (DPP); anogwch eich staff i fanteisio ar gyfleoedd i hyfforddi, naill ai i gymhwyso (e.e. Gwaith Chware ar Lefel 2/3/5) neu hyfforddiant arall i ychwanegu at eu datblygiad proffesiynol. Mae cyfleoedd i hyfforddi ar gael yn aml drwy Glybiau Plant Cymru Kids' Clubs, ac mae'n bosibl y bydd cyfleoedd drwy eich Awdurdod Lleol yn ogystal. Yn ddibynnol ar ba un yw'ch darparwyr yswiriant, mae'n bosibl y bydd cyfleoedd hyfforddi ar gael yn ogystal drwyddyn nhw. Gall rhai sy'n ddeiliaid polisi gyda Morton Michel er enghraifft gyrchu trwyddedau defnyddwyr lluosog er mwyn i'w staff allu cyrchu dros 60 o gyrsiau hyfforddi sydd wedi eu hachredu gan RoSPA a'u hardystio o ran DPP, drwy Flick Training. Mae'r cyrsiau yma'n cynnwys hyfforddiant ar y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR), Covid-19, codi a chario (cario plant yn ddiogel), ymwybyddiaeth o awtistiaeth, cam-drin yn y cartref a nifer o rai eraill.
3. Dweud diolch - er y byddai'n hyfryd i allu rhoi taliadau bonws, nid yw hyn fel arfer yn bosibl yn y Sector Gofal Plant. Er hynny, mae sicrhau o leiaf eich bod yn diolch i staff yn ffordd o gydnabod eu gwaith caled, a gall eu helpu i deimlo'n werthfawr. Lle nad yw aelod o'r staff bob tro'n cyflawni eu potensial, gall diolch iddyn nhw am dasg benodol y maent wedi ei wneud yn dda, amlinellu'r hyn a oedd yn dda amdano, a'r gwahaniaeth a wnaeth, annog mwy o ymddygiad cadarnhaol a chymhelliad. Gall diolch i aelodau o'r staff sy'n gweithio'n galed yn gyson, a chymryd yr amser i ddweud eich bod wedi sylwi faint y maen nhw'n ei wneud, pa mor galed y maent yn gweithio, a dweud eich bod yn ei wir werthfawrogi, olygu'r gwahaniaeth rhwng staff yn teimlo'n werthfawr neu beidio.
4. Clod cyhoeddus – yn cynnwys nodweddiojn 'Shout Out' neu luniau 'Cyflogwr y Mis' yn ardaloedd aros y rhieni, neu ar y cyfryngau cymdeithasol, i gydnabod ymhellach arferion ardderchog, yn ogystal â dangos i rieni/gofalwyr fod gennych weithlu rhagorol.
5. Cynnal 'Noson Wobrwyo' (efallai un 'dowch â'ch potel eich hun'!) sy'n dathlu arferion da yn cynnwys y cymwysterau a enillwyd. Gall y gwobrwyon hyd yn oed fod o natur ddigri, yn dibynnu ar beth, deimlwch chi, a fyddai orau gan eich tîm.
6. Gwobrwyon/rhoddion, naill ai i gydnabod a diolch i unigolion (e.e. arferion ardderchog, ennill cymwysterau) neu'r tîm cyfan (e.e. trîts yn yr ystafell staff, neu ddiwrnod ychwanegol o wyliau blynyddol â thâl).





# Ein Hyb Rhwydweithio Cyntaf

Drwy gydol pandemig Covid-19 fe wnaethom ddatblygu a chyflenwi gweminarau wedi eu llunio er mwyn cefnogi'r sector Gofal Plant Allysgol i oroesi ac adfywio. Maent wedi ymdrin â phynciau megis 'Ailagor wedi Covid-19', 'Dod yn Sefydliad Corfforedig Elusennol', 'Marchnata' a 'Systemau Ariannol'.

Gwelodd Ebrill lansiad ein 'Hyb Rhwydweithio' newydd, man a lle anffurfiol sy'n rhoi i ddarparwyr gofal plant y cyfle i gyfarfod yn rhithiol a thrafod pynciau penodol.

Edrychodd ein Hyb Rhwydweithio cyntaf, 'Ffyrdd newydd o weithio'n gynaliadwy' ac ar bwyntiau gwethu unigryw. Mae'n nod gan bob darparwr gofal plant i roi'r ansawdd gorau y gallant ei roi gan geisio aros yn gynaliadwy.

Nid amcan ariannol yn unig mo cynaliadwyedd; mewn oes lle'r ydym oll yn ymwybodol o'r effaith sydd gennym, mae cynaliadwyedd hefyd yn amcan amgylcheddol. Cynhaliwyd yr hyb rhwydweithio cyntaf ar Ebrill 22ain, Diwrnod Daear y Byd, a ffocws y cyfarfod ar sut y gall lleoliadau gofal plant wneud gwahaniaeth cynaliadwy.

Yn ystod yr hyb rhwydweithio gofynnwyd i'r rhai a oedd yn bresennol i adlewyrchu ar y gwasanaeth y maent yn ei gynnig, rhoi barn ar ba mor gynaliadwy yr oeddent a beth yn eu tyb hwy oedd eu pwynt gwerthu unigryw.

Roedd staff o Glwb Antur Big Ben a Chlwb San Siôr yn bresennol, ac fe wnaethant rannu sut yr oedd eu pwynt gwerthu unigryw hwy fel lleoliad yn effeithio'n gadarnhaol yn ariannol ac o ran cynaliadwyedd amgylcheddol.

Er bod y ddau leoliad yn debyg yn eu hymagwedd, a'r plant yn cyfranogi drwy dyfu ffrwythau a llysiau a gofalu am yr anifeiliaid, mae eu hardaloedd gwaith yn wahanol iawn; Mae gan Glwb Antur Big Ben lawer iawn o dir (2 acer) a Chlwb San Siôr â darn bychan, ac wyneb serth mynydd yn gefn (felly does dim lle i ehangu). Fe wnaethant egluro y gallai'r hyn yr oedden nhw'n ei wneud gael ei wneud mewn clybiau eraill, beth bynnag fo'u maint, a bod y cynnyrch yn cael ei ddefnyddio yn y clwb ac yn ffordd o godi arian.

Hefyd, gofynnwyd i'r rhai'n bresennol beth roedden nhw'n ei deimlo y gallent ei wneud i wella'u lleoliad, ond roedd nerfusrwydd ynghylch ceisio nodi'r hyn a oedd yn eu dal yn ôl. Yna, drwy drafodaeth, rhoddwyd cefnogaeth ar sut y gellir goresgyn rhwystrau a heriau gan roi'r hyder i ddechrau gwneud y newidiadau.

Mae ein Hybiau Rhwydweithio ar gyfer Rheolwyr, Arweinwyr a Gweithwyr Chwarae mewn lleoliadau Gofal Plant Allysgol; gobeithio yr ymunwch â ni'n fuan.

# Pam ry'ch chi'n gwneud yr hyn a wnewch?

Er bod gan Clybiau Gofal Plant Allysgol fanteision amlwg o ran cefnogi economi Cymru, i nifer o Weithwyr Chwarae, maer' ateb i'r cwestiwn uchod ynghylch y buddion a'r effeithiau cadarnhaol y mae a gaiff clybiau ar blant. Roedd ffocws ein rhifyn diwethaf o'r Bont ar y buddion niferus a ddaw i blant o chwarae, ac rydym wedi cael adborth ardderchog gan ambell i Leoliad ar y gwahaniaeth y mae ailagor wedi ei wneud i'r plant sydd yn eu gofal.

A yw'r ffordd yr ydych yn hysbysebu'ch Lleoliad yn trosglwyddo'r angerdd sydd gennych chi a'ch staff dros chwarae? Mae marchnata'n ganolog i lwyddiant unrhyw fusnes, ac a'r hinsawdd economaidd sy'n esblygu, a'r newid i batrymau/mannau gwaith, mae'n hanfodol sicrhau bod gwybodaeth am y cyfleoedd a'r profiadau chwarae gwych yr ydych yn eu cynnig i blant yn cael ei rhannu ymysg pob defnyddiwr posibl eich gwasanaeth. A ydych yn hysbysebu'n ddigon eang? Ac a ydych yn gwneud hynny mewn ffordd a fydd yn denu rhieni/gofalwyr a phlant eu hunain, fel eu bod yn dal i fod am ddefnyddio eich gwasanaethau hyd yn oed os y w rhieni/gofalwyr yn dal i weithio o gartref? Meddyliwch am ffyrdd unigryw, dengar, y gallech hysbysebu'ch gwasanaethau o ran ansawdd y profiadau chwarae:

- Fideos byr ar Facebook yn dangos eich man cyfarfod a'r cyfleoedd chwarae sydd ar gynnig
- Dyfyniadau gan rieni/gofalwyr a phlant ar yr hyn y maen nhw'n ei gael o ddefnyddio'ch Lleoliad.
- Cynlluniau gweithgaredd lliwgar cyn cyfnodau gwyliau, a digon o syniadau hwyliog, diddorol ac amrywiol
- Cynhwyswch y plant - beth mae'r plant sy'n mynychu yn ei hoffi fwyaf am ddod? Beth yw eu hoff atgofion? Beth yn eu barn nhw fyddai'r themâu a'r gweithgareddau gorau i'w cael mewn sesiynau i ddod? Mynnwch wybod a gwnewch y rhain yn sail hysbysebion yn y dyfodol.
- A fyddai nosweithiau ar thema'n help i ddenu mwy o bobl?

Gwyddom am y budd a gynigir i blant gan Glybiau Gofal Plant Allysgol sydd wedi cofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru, a Gweithwyr Chwarae sy'n teimlo'n angerddol dros chwarae - gwnewch yn siŵr fod eich cymuned yn ogystal yn gwybod am y buddion yma! A'r newidiadau i batrymau gwaith yn sgil Covid-19, yn awr yw'r amser i ailwampio'r strategaethau marchnata presennol a dod yn ôl at yr hyn sy'n sylfaenol bwysig: fel Gweithwyr Chwarae, pam ry'm ni'n gwneud yr hyn a wnawn?

Mae gennym lu o adnoddau marchnata sydd ar gael i chi yn ardal aelodau ein gwefan, yn cynnwys ein templed, 'Cefnogwch neu Collwch'. A chofiwch fod ein Swyddogion Datblygu Busnesau Gofal Plant yma i'ch cefnogi gydag unrhyw rai o'ch ymholiadau posibl ar farchnata.



# Llinell Amser Adnoddau Dynol

## Ebrill 1af 2021

**Isafswm Cyflog Cenedlaethol**
Ymestynnwyd y Cyflog Byw Cenedlaethol i weithiwyr 23 blwydd oed a throsodd a'i gynyddu i £8.91 yr awr. Y cyfraddau Ebrill 1af 2021:

- £8.36 i bobl 21 i 22 blwydd oed
- £6.56 i bobl 18 i 20 blwydd oed
- £4.62 i bobl 16 a 17 blwydd oed
- £4.30 i brentisiaid.

**Cyfraddau statudol newydd**
Tâl Mamolaeth Statudol (SMP), Tâl Tadolaeth Statudol (SPP), Tâl Rhieni ar y Cyd (ShPP), Tâl Mabwysiad Statudol (SAP) a Thâl Statudol Galar Rhieni (SPBP) wedi cynyddu i £151.97.

**Tâl salwch statudol (SSP)**
Cynyddodd y Tâl hwn i £96.35.

## Ebrill 4ydd 2021

## Ebrill 6ed 2021

**Cynyddodd y Tâl hwn i £96.35.**
Cynyddodd uchafswm y dyfarniad digolledol am ddiswyddo annheg o £89,493 (o £88,519) lle'r oedd dyddiad effeithiol y terfyniad ar neu ar ôl 6 Ebrill 2021.

**Tâl wythnos**
Cynyddodd uchafswm tâl wythnosol (a ddefnyddiwyd i gyfrifo taliadau diswyddo statudol) i £544 (o £538) lle'r oedd dyddiad effeithiol y terfyniad ar neu ar ôl 6 Ebrill 2021.

**IR35**
Ymestynnol gweithio oddi ar y gyflogres i gynnwys cyflogwyr mawr a chanolig yn y sector preifat. Am fwy o wybodaeth, ewch i https://www.gov.uk/guidance/april-2020-changes-to-off-payroll-working-for-clients

**PENP**
Mae newidiadau i'r fformiwla ar gyfer Tâl Rhybudd Ôl-Gyflogaeth (PENP) yn dod i rym yn achos cyfrifiadau lle diffinnir cyfnod tâl cyflogai mewn misoedd, od lle nad yw eu cyfnod rhybudd yn ôl eu contract, nac ar ôl eu cyflogi, yn rhif cyfan o fisoedd. Am fwy o wybodaeth, ewch i https://www.gov.uk/government/publications/changes-to-the-treatment-of-termination-payments-and-post-employment-notice-pay-for-income-tax/changes-to-the-treatment-of-termination-payments-and-post-employment-notice-pay-for-income-tax

**Cynllun Setliad yr UE**
Y terfyn amser i ddinasyddion yr UE a'u teuluoedd a gyrhaeddodd yn y DU cyn 11yh ar Ragfyr 31 2020 i wneud cais, o dan Gynllun Setliad yr UE, i gadw'r hawl i fyw a gweithio yn y DU. Am fanylion pellach, ewch i https://www.gov.uk/settled-status-eu-citizens-families

## Mehefin 30ain 2021

## Gorffennaf 1af 2021

**Y Cynllun Cadw Swyddi Coronafeirws (Saib Swydd)**
Mae grant y Llywodraeth i'r cynllun saib swydd yn lleihau, a rhaid i gyflogwyr ddechrau cyfrannu 10% o'r tâl saib swydd am yr oriau nas gweithiwyd.

**Y Cynllun Cadw Swyddi Coronafeirws (Saib Swydd)**
Mae grant y Llywodraeth i'r cynllun saib swydd yn lleihau, a rhaid i gyflogwyr ddechrau cyfrannu 20% o'r tâl saib swydd am yr oriau nas gweithiwyd.

## Awst 1af 2021

## Medi 30ain 2021

**Y Cynllun Cadw Swyddi Coronafeirws (Saib Swydd)**
Furlough Scheme ends.

*Mae'r manylion ynghylch Saib Swydd yn gywir ar adeg ysgrifennu hyn, gwiriwch y wybodaeth ddiweddaraf ar https://www.gov.uk/guidance/claim-for-wage-costs-through-the-coronavirus-job-retention-scheme



## Dyddiadau i'w cadarnhau!

- Cyflwynir deddf newydd yn gwahardd cymalau cyfrinachedd mewn contractau neu gytundebau setliad rhag atal datganiadau i'r heddlu, iechyd a gofal a reoleiddir neu weithwyr proffesiynol ym maes y gyfraith.
- Cyflwynir deddf newydd yn ei gwneud yn ofynnol fod cymalau cyfrinachedd yn gosod i lawr eu cyfyngiadau.
- Diwygio'r deddfau ar ddatgeliadau recordiau troseddol, gan gyfyngu ar y cyfnod datgelu yn achos dedfrydau sy'n para pedair blynedd neu lai
- Ymestyn yr amddiffyniad rhag diswyddiad i rieni newydd
- Deddf newydd yn cyflwyno'r hawl i bob gweithiwr i ofyn am gontract mwy rhagfynegadwy a chadarn wedi 26 wythnos o wasanaeth.
- Cyflwyno deddf newydd i gynyddu'r toriad mewn cyflogaeth barhaus o wythnos i bedair wythnos.
- Cyflwyno deddf newydd i atal didyniadau o 'dips'.
- Deddfwriaeth newydd i egluro profion statws cyflogaeth i gael ei chyflwyno.
- Cyflwyno deddf newydd yn cyflwyno gwaharddiadau ar dribiwnlysoedd pan fydd sefydliadau'n cyflawni sawl tor-cyfraith.
- Ymestyn absenoldeb rhieni ar y cyd i fam-guod a thad-cuod.

### Acas yn rhyddhau cyngor ar Wyliau ac absenoldeb yn ystod Coronafeirws

https://www.acas.org.uk/coronavirus/using-holiday

# Diweddariad i Gyflogwyr

**Hawl i wyliau**
Yn y mwyafrif o sefyllfaoedd, dylai cyflogwyr a gweithwyr ddefnyddio eu gwyliau â thâl ('absenoldeb blynyddol statudol) yn eu blwyddyn absenoldeb bresennol. Yn y DU mae hyn yn gyfystyr â 5.6 wythnos.

Mae hyn yn bwysig oherwydd bod cymryd gwyliau'n helpu pobl i:
• gael digon o wyliau
• gadw'n iach, yn gorfforol ac yn feddyliol

Bod yn hyblyg am wyliau yn ystod Coronafeirws
Dylai cyflogwyr, cyflogeion a gweithwyr fod mor hyblyg ag y gallant fod am wyliau yn ystod pandemig Coronafeirws (COVID-19).
Y mae'n syniad da:
• siarad am unrhyw gynlluniau i ddefnyddio neu ganslo gwyliau yn ystod pandemig Coronafeirws cyn gynted â phosibl
• trafod pam y gellid bod eisiau cymryd neu ganslo gwyliau
• gwrando ar unrhyw bryderon, gan y staff neu'r cyflogwr
• croesawu ac awgrymu syniadau ar gyfer opsiynau eraill
• ystyried llesiant corfforol a meddyliol pawb
• bod yn ymwybodol ei bod yn adeg anodd i gyflogwyr a staff fel ei gilydd.

**Os ydych yn weithiwr ar saib swydd**
Gall cyflogeion neu weithwyr sy'n cael eu hanfon adref dros dro am nad oes unrhyw waith ar gael ('gweithwyr saib swydd') wneud cais am wyliau a'u cymryd yn y ffordd arferol, os yw eu cyflogwr yn cytuno. Mae hyn yn cynnwys gwyliau'r banc. Rhaid i weithwyr ar saib swydd gael eu tâl arferol yn llawn am unrhyw wyliau y maent yn eu cymryd.

**Gwyliau sy'n cael eu cario drosodd**
Yn ystod pandemig Coronafeirws, efallai na fydd yn bosibl i staff gymryd eu holl hawl i wyliau yn ystod y flwyddyn gyfredol.

Er hynny, dylai cyflogwr fod yn annog gweithwyr a chyflogeion i gymryd eu gwyliau â thâl. Dylai cyflogeion a gweithwyr hefyd wneud ceisiadau am dâl gwyliau drwy gydol eu blwyddyn wyliau, os yw hynny'n bosibl.

'Mae'r llywodraeth wedi cyflwyno deddf newydd https://www.gov.uk/guidance/holiday-entitlement-and-pay-during-coronavirus-covid-19 sy'n caniatáu i gyflogeion a gweithwyr i gario drosodd hyd at 4 wythnos o wyliau â thâl i'w 2 flynedd nesaf o absenoldeb gwyliau. Mae'r ddeddf yma'n berthnasol i unrhyw wyliau nad yw'r cyflogai neu'r gweithiwr yn ei gymryd oherwydd Coronafeirws, er enghraifft os:
• ydynt yn hunanynysu neu'n rhy sâl i gymryd gwyliau cyn diwedd eu blwyddyn wyliau
• ydynt wedi gorfod parhau i weithio ac wedi methu â chymryd gwyliau â thâl.

Mae'n bosibl hefyd y bydd modd iddynt gario drosodd wyliau os ydynt wedi cael eu rhoi ar 'saib swydd' ac yn methu, yn rhesymol, ei ddefnyddio yn y flwyddyn wyliau.

Bydd rhai cyflogwyr eisoes â chytundeb yn ei le i gario drosodd wyliau â thâl. Nid yw'r ddeddf hon yn effeithio ar unrhyw gytundebau sydd eisoes yn eu lle.

Os yw cyflogai neu weithiwr yn gadael eu gwaith, neu os yw'n cael ei ddiswyddo ac wedi cario drosodd wyliau â thâl oherwydd Coronafeirws, rhaid ychwanegu unrhyw wyliau â thâl nas cymerwyd at eu tâl terfynol (tâl yn eu lle).

**Gwyliau'r Banc**
Mae gwyliau'r banc fel arfer yn rhan o'r isafswm cyfreithiol o 5.6 wythnos o wyliau â thâl.
Er hynny, gall cyflogwyr eto ofyn i gyflogeion a gweithwyr i gymryd gwyliau â thâl ar ŵyl y banc, oni bai eu bod i ffwrdd o'r gwaith oherwydd salwch. Rhaid iddynt roi rhybudd i'r cyflogeion neu'r gweithwyr.

Gall cyflogeion a gweithwyr hefyd ofyn i gymryd diwrnod o wyliau â thâl ar wyliau blynyddol. Os yw'r cyflogwr yn cytuno, rhaid iddynt gael eu tâl arferol yn llawn.

Os nad yw cyflogeion a gweithwyr yn siŵr a oes angen cymryd gwyliau fel gwyliau â thâl, dylent:
• wirio'u contract
• siarad â'u cyflogwr

Os na ellir cymryd gwyliau'r banc oherwydd Coronafeirws, dylai cyflogeion a gweithwyr ddefnyddio'r gwyliau ar ddyddiad diweddarach yn eu blwyddyn wyliau.

Os nad yw hyn yn bosibl, gellir cynnwys gwyliau'r banc yn y gwyliau 4 wythnos â thâl y gellir ei gario drosodd. Gellir cymryd y gwyliau yma ar unrhyw adeg dros y 2 flwyddyn o wyliau blynyddol nesaf.

**Cytuno sut y caiff gwyliau ychwanegol eu cario drosodd**
Os nad oes gan gyflogwr gytundeb eisoes yn ei le, gallant benderfynu a fyddant yn caniatáu cario drosodd wyliau ychwanegol (mwy na'r 4 wythnos o wyliau â thâl).
Gall gwyliau ychwanegol gynnwys:
• y 1.6 wythnos sy'n weddill o wyliau statudol blynyddol
• gwyliau sydd dros y lleiafswm cyfreithiol

Dylai cyflogeion a gweithwyr wirio eu contract cyflogaeth neu siarad â'u cyflogwr er mwyn gwybod beth sydd ganddynt hawl iddo.

**Cyrraedd cytundeb**
Os oes gan y gweithle undeb lafur a gydnabyddir, neu os oes cynrychiolwyr o'r gweithwyr sy'n gweithio ar y cyd â'r cyflogwr ar y materion hyn, dylai'r cyflogwr eu cynnwys o ran cytuno ar newidiadau. Os doir i unrhyw gytundeb, mae'n syniad da iddo fod yn ysgrifenedig. Dylai cyflogwyr gael cyngor cyfreithiol os nad ydynt yn siŵr p'un ai i ganiatáu cario drosodd wyliau ychwanegol.

**Gwyliau a archebwyd yn flaenorol**
Mae'n bosibl na fyddai cyflogi am gymryd yr amser o'r gwaith yr oeddent wedi'i archebu yn flaenorol, er enghraifft am fod eu gwesty wedi canslo'r bwciad. Gall eu cyflogwr fynnu eu bod yn dal i gymryd yr amser i ffwrdd, ond mae'n arfer da i gael cytundeb o du'r cyflogai. Os bydd y cyflogi am newid yr amser y byddant yn cymryd yr amser hwn o'r gwaith, bydd angen iddynt gael cytundeb gan eu cyflogwr.

**Gofyn i staff i gymryd neu ganslo gwyliau**
Mae gan gyflogwyr yr hawl i ddweud wrth gyflogeion a gweithwyr pa bryd i gymryd gwyliau.
Ni allant wneud hyn fodd bynnag yn achos unrhyw gyflogeion neu weithwyr sydd ar:
• wyliau salwch
• wyliau teuluol, er enghraifft, gwyliau mamolaeth

**Os bydd angen i gyflogwr ddweud wrth staff pa bryd i gymryd gwyliau**
Gall cyflogwr, er enghraifft, gau am wythnos a dweud wrth bawb am ddefnyddio eu hawl i wyliau.
Os yw cyflogwr yn penderfynu gneud hyn, rhaid iddo ddweud hyn wrth staff o leiaf ddwywaith nifer y gwyliau y maent angen i bobl gymryd. Er enghraifft, os yw am gau am 5 niwrnod, dylai ddweud wrth bawb o leiaf 10 niwrnod cyn hynny.

**Canslo gwyliau a fwciwyd eisoes**
Hefyd, gall cyflogwyr ganslo gwyliau sydd wedi ei fwcio ymlaen llaw. Os ydynt yn penderfynu gwneud hyn, rhaid iddynt roi i'r staff o leiaf rybudd o'r un nifer o ddyddiau â dyddiau'r cais gwreiddiol. Er enghraifft, os yw cyflogai wedi bwcio 5 niwrnod o wyliau, rhaid i'r cyflogwr ddweud wrthyn nhw o leiaf 5 niwrnod cyn y gwyliau eu bod wedi'u canslo.

Gallai hyn effeithio ar wyliau y mae staff eisoes wedi'i fwcio neu eu cynllunio, a pheri anfodlonrwydd. Felly dylai cyflogwyr:
• esbonio'n glir pam fod angen iddyn nhw wneud hyn
• ceisio datrys unrhyw bryderon ynghylch y modd y byddai'n effeithio ar eu hawl i wyliau neu eu cynlluniau.
Cadwch â'r wybodaeth ddiweddaraf ar www.acas.org.uk

# Chwarae Tu Allan, Cysylltu â Natur

Roedd yn bleser pur gennym dderbyn dyfarniad Bagiau Cymorth Tesco ar gyfer ein Prosiect, 'Chwarae Tu Allan, Cysylltu â Natur' , wedi ei seilio mewn ardaloedd yn Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin a Blaenau Gwent. Wrth i lefelau gordewdra barhau i godi, ac wrth i gymdeithas gyfyngu ar gyfleoedd plant i chwarae (hyd yn oed cyn y cyfnod clo), mae'r prosiect yma wedi annog plant a'u Gweithwyr chwarae mewn Clybiau Allysgol i fynd allan i'r awyr agored, bod yn egnïol, mwynhau anturiaethau a chysylltu â natur, gan annog chwarae a chydweithrediad mewn ffyrdd hwyliog ac iach.

Cyn y cyfnod clo ym Mawrth 2020, fe wnaeth 61 o Weithwyr Chwarae a 435 o blant fwynhau gweithdai ar Adeiladu Deniau, Parth Natur ac Yn Gyforiog o Gemau. Bydd cyfoeth o syniadau am weithgareddau, yn ddwyieithog, yng ngofal Clybiau, rhai y gallant eu cyflwyno ar sail barhaus, a datblygwyd nifer ohonynt mewn partneriaeth â 3 Pharc Cenedlaethol Cymru ac Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Gŵyr.

Ymhlith sylwadau'r Gweithwyr Chwarae cafwyd:

*'Digonedd o syniadau newydd i ni.'*
*'Braf iawn i weld y plant yn chwarae tu fas hyd yn oed mewn tywydd gwael.'*
*'Ardderchog i'r plant, a da gweld esiampl o sut y gall plant o wahanol oedrannau weithio gyda'i gilydd.'*
*'Roedd y plant wrth eu boddau. Mae hyn wedi rhoi llond gwlad o syniadau i ni.'*

Gan na allem gyflwyno gweithdai dros y flwyddyn ddiwethaf, fe wnaethom yn hytrach ddatblygu fideos amrywiol ac adnoddau gweithgaredd i gefnogi ein Clybiau gyda chymorth ariannu gan Fagiau Cymorth Tesco, Ymddiriedolaeth Ray Gravell a'i Ffrindiau a'r Sefydliad Cydweithredol; gweler rhai enghreifftiau isod.

## Bom Dŵr
## Water Bomb

Clybiau Plant Cymru
KIDS' CLUBS

**Ffordd syml o gyflwyno'r elfen dŵr i amgylchedd chwarae**

**Bydd arnoch angen:**
- Sbwnjis cartref
- Bandiau lastig
- Siswrn
- Dŵr
- Powlen/Jwg
- Dihirod' - dewisol



**A simple way to introduce the element water to a play environment**

**What you need:**
- Household Sponges
- Elastic Bands
- Scissors
- Water
- Bowl/Jug
- 'Baddies' - optional

**Beth i'w wneud:**
1. Casglwch eich adnoddau
2. Torrwch y sbwnjis yn ddarnau o drwch a hyd cyfartal.
3. Cymerwch 6-8 stribed o'r sbwnj a'u gwasgu at ei gilydd yn y canol
4. Trowch y band lastig g gwmpas canol y sbwnjis i'w sicrhau nhw oll wrth ei gilydd.

• Gosodwch eich 'Dihirod' mewn rhes a'u peledu â'r Bomiau Dŵr i amddiffyn eich castell :)
• Gwnewch dargedau i chi gael ymarfer anelu

30 munud / 30 minutes
Canolig / Medium


!


• Goruchwyliwch a chefnogwch blant llai wrth iddyn nhw ddefnyddio'r siswrn


• Supervise and support smaller children while using the scissors

**What to do:**
1. Collect your resources
2. Cut the sponges into equal thickness and length.
3. Take 6-8 strips of the sponge and press together at the centre
4. Twist the elastic band around the centre of the sponges to secure them all together

• Place your 'Baddies' in a row and blast them with the Water Bombs to protect your castle :)
• Make targets to practice your aim







www.clybiauplantcymru.org

## Barcud wedi'i hailgylchu
## Recycled Kite

Clybiau Plant Cymru
KIDS' CLUBS

**Ffordd syml o gyflwyno'r elfen aer i amgylchedd chwarae**

**Bydd arnoch angen:**
- Siswrn
- Glud
- Ffon fesur
- Pen marcio
- Llinyn
- Rhuban
- Tâp
- O leiaf 2 fag plastig wedi'u hailgylchu (mae bagiau mwy yn gweithio'n well)
- 2 ffon denau (1 yr un hyd â'ch bag, 1 tua 10cm yn fyrrach)



**A simple way to introduce the element air to a play environment**

**What you need:**
- Scissors
- Glue
- Ruler
- Marker pen
- String
- Ribbon
- Tape
- At least 2 recycled plastic bags (larger bags work better)
- 2 thin sticks (1 the same length as your bag, 1 around 10cm shorter)

**Beth i'w wneud**

I wneud y ffrâm:
1. Croeswch y ffon lai dros y ffon hirach ar ffurf llythyren T fach.
2. Sicrhewch y ffyn gyda'i gilydd gan ddefnyddio'r llinyn a'r glud.
3. Clymwch ruban i'r ddau ben i'r ffon i greu ffrâm.
4. Ysgwydwch y ffrâm i sicrhau ei fod wedi'i osod yn ddiogel.

I wneud yr hwyl:
1. Torrwch y dolenni plastig oddi ar eich bag.
2. Torrwch ochrau eich bag plastig fel ei fod yn dod yn ddarn gwastad.
3. Gosodwch ffrâm y barcud ar y darn gwastad o blastig i sicrhau ei fod yn ffitio.
4. Gan ddefnyddio'ch ffon fesur a'ch marciwr, mesurwch 2cm yn lletach na'r ffrâm ac yna amlinellu'r siâp.
5. Torrwch ar hyd y llinell hon.
6. Yna, torrwch 2cm i mewn ym mhob cornel.
7. Dechreuwch ar un ochr a phlygu'r plastig sy'n weddill dros linyn y ffrâm.
8. Gan ddefnyddio tâp, sicrhewch yr ymyl wedi'i blygu i'r hwyl. Gorchuddiwch yr hyd cyfan â thâp i atal y gwynt rhag dod rhwng yr haenau.
9. Ailadroddwch nes bod yr holl ymylon wedi eu sicrhau wrth yr hwyliau.

I orffen:
1. Clymwch y rhuban i bob pen a'u huno yn y canol (fel y dangosir yn y llun isod)
2. Atodwch eich pêl hir o linyn / rhuban at y canol.
3. Ychwanegwch gynffon i'ch bag o'r bagiau / rhubanau nas defnyddiwyd ac rydych chi'n barod i hedfan eich barcud!

30 munud / 30 minutes
Canolig / Medium

!

• Goruchwylio y plant gan ddefnyddio offer torri bob amser
• Hedfanwch y barcud bob tro mewn mannau agored clir i ffwrdd o goed a cheblau pŵer uwchben.
• Goruchwyliwch y plant drwy'r adeg

• Supervise children using cutting implements at all times
• Always fly a kite in clear open spaces away from trees and overhead power cables.
• Supervise children at all times

**What to do:**

To make the frame:
1. Cross the smaller stick over the longer stick in the shape of a lower-case T.
2. Secure the sticks together using the string and glue.
3. Tie ribbon to each end of the stick to create a frame.
4. Give the frame a shake to make sure it is fixed securely.

To make the sail:
1. Cut the plastic handles off your bag.
2. Cut the sides of your plastic bag so it becomes a flat sheet.
3. Lay the kite frame on the flat sheet of plastic to make sure it fits.
4. Using your ruler and marker, measure 2cm wider than the frame and then trace the shape.
5. Cut along this line.
6. Then, cut in 2cm at every corner.
7. Start on one side and fold the excess plastic over the string of the frame.
8. Using tape, secure the folded edge to the sail. Cover the entire length with tape to prevent the wind from coming between the layers.
9. Repeat until all edges are secured to the sail.

To finish:
1. Tie ribbon to each end and join in the middle (as shown in the picture below)
2. Attach your long ball of string/ ribbon to the centre
3. Add a tail to your bag from the unused bags/ribbons and you are ready to fly your kite!

www.clybiauplantcymru.org

# Cwrdd â'r Tîm

## – Chwarae Allan gyda'r Elfennau!

Gan fod y rhifyn hwn yn dathlu popeth sydd yn chwarae sylfaenol, meddwl wnaethom ni y byddai hwn yn gyfle da i ddysgu ychydig mwy am ein tîm a'u hoffterau chwarae. Cyfle i chi weld rhywfaint o'r hwyl yr ydym wedi'i chael y dyddiau hyn ac yn y gorffennol. Efallai y gwnaiff eich ysbrydoli chi i roi cynnig ar rywbeth newydd a rhoi i'r plant yr ydych yn eu cefnogi ddewis eang o weithgareddau newydd. Ceir hyd i rai o'r gweithgareddau hyn, a syniadau chwarae eraill wedi eu seilio ar yr elfennau, yn ein Gweithdy 'Chwarae Allan gyda'r Elfennau' - ewch wybod mwy am y gweithdy ardderchog hwn yn ein Cyfarwyddiadur Hyfforddiant ar ein gwefan. Os oes angen cefnogaeth arnoch, neu os oes gennych ddiddordeb mewn prynu gweithdy, cysylltwch â ni ar info@clybiauplantcymru.org

### Beth yw eich hoff weithgaredd/gêm yn seiliedig ar ddŵr?

"Mae Glŵp yn dda iawn am ryddhau straen ym mhob oed, gan ychwanegu mwy neu lai o ddŵr i newid y gwneuthuriad, ac ychwanegu lliwiau a phethau cyffredinol megis dail a ffyn/cerrig. Llond gwlad o sbri glŵplyd!"

"Syrffio a nofio yn y môr, a brwydrau dŵr gyda'm plant."

"Nofio – mewn pwll neu yn y môr, dwi'n dwlu ar fod yn y dŵr!"

"Brwydrau dŵr a chwarae gyda swigod"

"Mae mhlant a minnau wrth ein boddau'n gwneud swigod."

"Hel crancod gyda'm bechgyn, chwarae yn y môr, neidio i mewn i byllau mwdlyd, brwydrau dŵr, taflu cerrig i'r môr".

"Heb os, brwydr ddŵr!

"Dwi'n dwlu ar arbrofion, yn enwedig rhai sy'n gwneud i'm plant sgrechian chwerthin (mae mentos mewn diodydd pefriog bob tro'n dda). Mae fy merch yn hoff iawn o gael llond llaw o wahanol 'gynhwysion' a gweld beth all y gwahanol gyfuniadau eu gwneud".





### Beth yw'ch hoff weithgaredd/gêm yn seiliedig ar aer?

"Siglen raff, un a wnaed gan fy nhad pan oeddwn i'n blentyn (fe'i creodd yn y garej ac roeddem ni'n arfer chwarae yno ar ddyddiau gwlyb iawn); roedd fy mhlant i hefyd yn arfer ei ddefnyddio yn y goeden yn ein gardd a chael oriau o hwyl."

"Hedfan barcud a chicio dail yn yr aer."
"Awyrennau papur – mi alla i a'r bechgyn chwarae hyn am oriau!"
"Gweld a dod i wybod mwy am fyd natur o'n cwmpas."



"Dwi'n dwlu ar hedfan barcudiaid ar y traeth."

"Mynd ar wifrian wib, a suo ar deiar."
"Yn bendant, fy ffefryn yw siglenni rhaff.

"Gwneud cwrs/trac rhwystrau â lego, ac yna defnyddio'r gwellt i chwythu pêl fechan (neu malteaser) drwy'r trac - rydym yn amseru ein gilydd ac mae'r enillydd yn cael bag o malteasers!"

### Beth yw'r hoff weithgaredd/gêm yn seiliedig ar y ddaear?

"Gwneud dens glaswellt o'r toriadau glaswellt yn y parc, hefyd chwarae cwato-a-chwilio yn rhedyn y mynyddoedd."

"Mynd am dro yn y mwd pan mae'n glawio a dy'ch chi ddim yn teimlo fel mynd allan - ond mae bob tro'n fwy o hwyl nag oeddech chi'n ei ddisgwyl."

"Troeon natur, dringo coed (gwylio fy mhlant yn dringo coed - dwi'n llawer rhy hen a byddwn ni'n gwneud niwed i'm hun!)"

"Gwneud deniau, casglu a phaentio cerrig, chwarae yn y mwd."

"Paentio â mwd, - rhad a rhwydd, a chyfan gwbl gyfeillgar i'r amgylchedd."

"Gwneud bwydwyr adar, tyfu berwr, casglu mefus a neidio mewn pyllau mwdlyd!"

"Unrhyw beth mwdlyd!"

"Gwneud diod o fwd yn y goedwig."

### Beth yw'ch hoff weithgaredd/gêm yn seiliedig ar dân?

"Defnyddio cannwyll a chreonau cwyr wedi'u toddi. Byddwn i'n treulio oriau yn y sied yn gwylio'r lliwiau'n toddi i mewn i'w gilydd gan greu patrymau, ac yna galedu yn siapau newydd i'r creonau. Gellir datblygu'r rhain ymhellach yn fowldiau bychain a chreu creonau newydd o hen rai o fonyn byr."

"Gwneud tanau gyda'r nosweithiau ar gyfer coginio a thostio malws melys."

"Gwneud smôrs."

"Tanau gwersyll a thostio malws melys â goleuadau te, defnyddio'r tân i greu lluniau."

"Bob tro'n hoff o dân gwersyll, ac mae gwneud popcorn y tu allan bob tro'n boblogaidd gyda'm plant."

"Sparklers yn yr ardd, llosgi gwastraff gardd ac yna coginio selsig ar y tân."

"Coginio ar y tân gwersyll pan fydd yn mynd yn dywyll."

"Rhai o funudau hapusaf yr ychydig flynyddoedd diwethaf fu eistedd ar y traeth o gwmpas tân gyda'm plant, fel arfer gyda'm ffrindiau o'r gwaith, yn gwrando ar y sgwrsio ac edrych i fyny at y sêr. Mae'r traeth yn sicr yn lle hapus i mi, ac mae tanau gwersyll yn creu cymaint o awyrgylch! Mae'r plant wrth eu boddau'n rhoi ffyn priciau yn y tân ac yna tynnu lluniau ar y cerrig."



# Gemau stryd

Cofiwch bob tro i ddilyn yr arweiniad diweddaraf gan Lywodraeth Cymru ac i gadw pellter. Yn y cyfamser gallwch ddal i fwynhau'r gêm yma gyda'r rhai sydd yn eich swigen.

## Hopscotch

Mae Hopscotch yn un o'r gemau hynny y gallwch ei chwarae ar goncrit, ond o ble mae'r enw, "Hopscotch" yn dod? Mae'r gêm stryd wedi bod o gwmpas ers y 17eg ganrif, pan gyfeiriwyd at y gêm fel "Scotch-Hoppers"; y "Scotch" yw'r llinell sy'n gwahanu'r bocsys â rhifau arnynt. Nod y gêm yw hercian i fyny ac i lawr y cwrt ag amlinell sialc heb dorri'r rheolau.

**Bydd arnoch angen:**
- 1 neu fwy o bobl
- Sialc awyr agored
- Carreg neu ddarn arian

**Bydd angen i chi:**
1. Wneud amlinell o'ch cwrt â sialc
2. Bydd y chwaraewr cyntaf yn sefyll ar y man cychwyn.
3. Taflu darn arian neu garreg i mewn i'r sgwâr cyntaf (rhif 1) er mwyn iddo lanio rhywle yn y bocs.
4. Bydd y chwaraewr cyntaf yn hercian ym mhob sgwâr heblaw'r un â charreg/darn arian yn y bocs.
5. Rhaid i'r chwaraewr hercian hyd at ben pella'r cwrt ac yn ôl eto, gan godi'r garreg/darn arian wrth iddyn nhw ddod yn ôl. Cofiwch y bydd yn rhaid i chi sefyll ar un droed tra byddwch yn codi'r garreg/darn arian, os yw'n sgwâr sengl.
6. Dechreuwch o'r dechrau, ond taflwch at yr ail sgwâr ac yn y blaen.

Nodwch: os yw'n sgwâr sengl, herciwch ar un droed, am sgwâr dwbl, glaniwch ar ddwy droed.

Bydd chwaraewr yn colli eu tro os ydynt yn:
- Camu ar linell
- Methu sgwâr â'u carreg/darn arian
- Colli eu cydbwysedd

Os collir tro, yna gall y chwaraewr ddechrau ei dro nesaf lle gwnaeth adael ei dro blaenorol.






## Marblis

Nod gêm o farblis yw rholio, taflu, gollwng neu daro marblis yn erbyn marblis gwrthwynebydd, yn aml i'w bwrw allan o'r ardal wedi'i marcio â chylch, ac yna ennill y maes cylch ac ennill y farblen. Pêl fechan, galed o wydr yw marblen; fe'i defnyddir mewn amryw o gemau plant, ac mae wedi ei henwi ar ôl yr arfer yn y 18fed ganrif o wneud y tegan o naddion marmor.

**Bydd arnoch angen:**

I chwarae'r gêm yma, bydd arnoch angen y canlynol:
- Llawer o farblis tua'r un maint â'i gilydd (po fwya'r nifer o farblis sydd gennych, yr hiraf fydd y gêm, po leia'r nifer o farblis, y byrraf fydd y gêm).
- Sawl chwaraewr
- Un farblen yn saethwr i bob chwaraewr (mae saethwr fel arfer ychydig yn fwy na marblis cyffredin, ac yn ôl traddodiad, eich hoff farblen ddylai hon fod (er nad oes angen iddi fod).
- Hyd o linyn neu sialc

**Beth fydd angen i chi ei wneud:**
1. Gosodwch eich llinyn mewn cylch ar arwyneb caled, neu amlinellwch yr ardal â sialc. Dylai'r cylch fod unrhyw le rhwng 1m a 3m o ddiamedr. Po fwya'r diamedr, yr anoddaf fydd y gêm.
2. Gwasgarwch eich marblis llai o fewn y cylch mewn unrhyw drefn.
3. Lansiwch eich 'saethwr'; daliwch ef rhwng eich bysedd a rhoi fflic iddi â'ch bawd.
4. Bydd saethiad cyntaf pob chwaraewr o'r tu allan i'r cylch llinyn.
5. Os bwriwch farblen allan o'r cylch, rhowch ef i un och a'i gyfrif fel un pwynt.
3. Wedi'ch tro chi, peidiwch â chymryd y saethwr o'r cylch.
4. Ar eich tro nesaf, saethwch o'r lle diwethaf y glaniodd y 'saethwr' y tu mewn i'r cylch.
5. Os glaniodd eich saethwr y tu allan i'r cylch, dylech gymryd eich saethiad nesaf o unrhyw bwynt y tu allan i'r cylch hwn.
6. Gallwch fwrw saethwr chwaraewr arall allan o'r cylch, gan roi iddyn nhw'r anfantais o orfod saethu o'r tu allan i'r cylch.
7. Ar ddiwedd y gêm, pan fydd yr holl farblis allan o'r cylch, y person â'r nifer fwyaf o farblis sy'n ennill.

Pan fyddwch yn chwarae marblis mae angen i chi benderfynu yn gyntaf pa fersiwn y byddwch yn ei chwarae. Er enghraifft, a fyddwch chi'n chwarae am hwyl, neu i gadw'r marblis a enillwyd? Dwi'n eich cynghori'n gryf i beidio â chwarae i gadw gan fod hyn gan amlaf yn amharu ar gystadlu cyfeillgar ac yn difetha ysbryd y gêm. Pa fersiwn bynnag a ddewiswch i'w chwarae, mae'r rheolau yr un fath.

Gobeithio y byddwch yn mwynhau'r gêm yma! Cofiwch, nid ennill yw popeth. Cael hwyl yw'r peth! Byddwch yn sbortyn iawn a mynnwch gael hwyl!

## Sgipio Ffrengig

Gêm stryd glasurol yw Sgipio Ffrengig, un sy'n help i ddatblygu cydbwysedd a chydlyniad. Bydd plan yn cael oriau o hwyl yn perfformio cyfres o neidiau traddodiadol, Bydd plant yn cael oriau o hwyl yn perfformio cyfres o neidiau traddodiadol, yn profi ei gilydd ar wahanol uchderau tra byddant yn llafarganu rhigymau a chaneuon. Mae'r cyfeiriad cynharaf at sgipio'n dyddio'n ôl i'r 1600au. Dechreuodd sgipio lastig ym Mhrydain yn y 1960au, wedi cyrraedd o UDA ac wedi dod yn wreiddiol o Tsieina neu Japan.



**Beth fyddwch eu hangen:**
- Lastig trwchus, cryf, unrhyw beth rhwng 5m a 7m (neu clymwch sawl band lastig at ei gilydd); clymwch y ddau ben wrth ei gilydd.
- Dau berson (neu gadeiriau) yn rhoi eu traed y tu mewn i'r rhaff a'u hymestyn allan, gan sefyll ddigon ar wahân i drydydd person allu neidio rhyngddyn nhw.
- Llawr cadarn.

**Beth fydd angen i chi ei wneud:**
1. Mae'r gêm yma'n debyg i raff sgipio reolaidd gan eich bod yn neidio dipyn, ond rydych yn neidio mewn patrwm, ac mae'r lastig wedi ei glymu ar y ddau ben.
2. Mae'r trydydd person, neu'r neidiwr, yn wynebu un o'r bobl sy'n dal y lastig ac yn neidio mewn patrwm o chwith, de, tu mewn, tu allan ac ar y lastig.
3. Eich dewis chi fydd y patrwm a ddefnyddiwch, ond dylai patrwm pob chwaraewr fod yr un fath.
4. Mae'r gêm yn cychwyn a'r lastig o gwmpas y pigyrnau. Unwaith y bydd y neidiwr wedi neidio'n gywir, symudir y lastig i fyny i'r crothau coesau, yna i'r pengliniau, yna i'r cluniau, a dim pellach.
5. Unwaith y byddwch yn methu, tro rhywun arall fydd hi.
6. Tri neu fwy o chwaraewyr fyddi orau, ond gellir ei chwarae ag un neu ddau.